CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 271 - 50c
Mawrth 2009

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Llanllwni mewn llyfr Tudalen 8

Cadwyn arall o gyfrinachau Tudalen 14

Croesair diwrnod y llyfr Tudalen 16

Dathlu Dwbl

Luned Mair yn ennill y gadair a'r goron yn Eisteddfod yr Ysgol Gyfun.

Dathlu Dewi

Cymwynaswyr gorau Ysgol Cwrtnewydd Rhodri Hatcher a Meinir Davies.

Disgyblion Ysgol Llanybydder

Mwy ar dudalen 2

Dathlu Dewi

Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd.

Disgyblion Ysgol Llanllwni.

Disgyblion Ysgol Y Dderi.

Disgyblion Ysgol Llanwnnen.

Eira eira eira ym mhob man

Dyn eira diwylliedig!

Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd

Disgyblion Ysgol Llanwenog

D & C Rallying

Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664

CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni

Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

Maesyllan, Llanbedr Pont Steffan

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mawrth	Elaine Davies, Penynant, Alltyblaca	480526
Ebrill	Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffosyffin	01545 571234
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan	
Dylunydd:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffwyr	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
	Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann	421173
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk .
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Addysg yn broblem!

Efallai fod dweud hyn yn anghywir. Gweinyddu addysg yw'r broblem. Mae gofynion y Llywodraeth yn ofid i bob lefel o addysgu. Un esiampl yw'r gofyn am gynnig rhagor o bynciau ar lefel 'A' yn yr ysgolion uwchradd. Ar un llaw, syniad da. Ar y llaw arall, amhosib mewn ardal wledig ei weinyddu yn rhwydd. Mae'r syniad o glystyru Ysgolion Uwchradd i gynnig gwahanol bynciau yn iawn ar bapur. Ond beth am y broblem o amserlennu a theithio? Beth am i ni fuddsoddi mewn bysiau sy'n medru bod yn stafelloedd dosbarth? Gwersi yn dod dros y We o'r funud y mae'r disgybl yn mynd ar y bws. Wow! Mae 'na broblem. Diffyg arian neu ddiffyg gweledigaeth. Mae'n drueni fod yr holl amser fydd yn mynd i deithio yn cael ei wastraffu!

Cyflogi Tramorwyr.

Mae hon yn ddadl gymhleth iawn. Ar un llaw, mae'n hawdd deall safbwynt y gweithwyr yn y safleoedd olew sy'n gwrthwynebu cyflogi tramorwyr yn unig. Yn naturiol, maen nhw'n gobeithio cael yr un cyfle â gweithwyr tramor. Mae'n hawdd gweld eu safbwynt ac mae'n hawdd cydymdeimlo. Ar y llaw arall, mae byd Pêl Droed yn rhoi rhywbeth i feddwl amdano. Trueni na fuasai'r rhain yn streicio i wrthwynebu'r llu o dramorwyr sy'n cael eu cyflogi gan y timau yn yr uwch adrannau. Dim rhyfedd fod timau Prydeinig yn ei gweld hi'n anodd cystadlu ar y meysydd rhyngwladol! Prin yw'r Prydeinwyr sy'n chwarae ar y lefel uchaf.

Eira!

Do, fe gawsom ychydig eira y ffordd yma, ond dim i'w gymharu ag ardaloedd eraill ym Mhrydain. Mae ychydig wedi mynd yn broblem erbyn hyn. Ysgolion yn methu sicrhau diogelwch y disgyblion amser chwarae. Pawb erbyn hyn mor barod i erlyn ac i roi bai ar bob un ond arnyn nhw eu hunain. Fe weithiodd gweithwyr y ffordd yn ddiwyd i geisio cadw'r heolydd yn glir. Y trueni yw fod y tâl am halen yn mynd i roi twll mawr yn y gyllideb am weddill y flwyddyn.

Llys enw.

Roedd y glöwyr bob amser yn llwyddo i roi llys enw ar eu cyd weithwyr. Mwyaf parod yr oedd un i brotestio, mwyaf sicr yr oedd o gael ei ail fedyddio. Clywais am enw go wahanol a barodd i mi chwerthin am gryn amser. Gobeithio y cewch chithau rywbeth i wenu amdano wrth ddarllen.

Fel 'Dai Quiet Wedding' yr adnabuwyd y gwron yma. Bum yn crafu fy mhen yn meddwl am esboniad. Wedi rhedeg i ffwrdd i Gretna Green i briodi? Na! Priodi heb i neb wybod yn y Capel neu'r Swyddfa Gofrestru? Na! Gorfod holi o'r diwedd i'w gyfaill am esboniad. "Na" meddai hwnnw, "fe gafodd briodas fawr yn yr Eglwys leol. Gwisg o Moss Bros amdano ond goeliech chi ddim beth oedd am ei draed e – 'daps', a fel'na y cafodd y boi bach ei fedyddio. Dai Quiet Wedding"

Pob hwyl

CLONCYN.

Clonc ar we



Mae Papur Bro Clonc wedi bod ar y we bellach ers blwyddyn. Mae'r wefan **www.clonc.co.uk** yn ategu at amcanion Clonc o 'hybu Cymreictod a sicrhau twf yn nifer y bobl sy'n darllen Cymraeg', a 'sicrhau bod Clonc yn gyfrwng i'n cael i adnabod ein bro a'n pobl yn well'. Y ffordd mae'r wefan yn rhagori yw bod Clonc yn gallu cyrraedd pobl o bob rhan o'r byd.

O'r wefan gallwch lawrlwytho ôl rifynnau Clonc a darllen unrhyw beth a gollwyd, neu ail ddarllen rhywbeth o ddiddordeb.

Yn y flwyddyn ddiwethaf cafwyd 1,715 o ymweliadau ac ymwelwyd â 11,446 o dudalennau. Ar gyfartaledd, ymwelwyd â 6.67 tudalen yr ymweliad. Mae hyn i gyd yn destun o lawenydd mawr i bapur gwirfoddol fel Clonc. Mae'n golygu ein bod yn cyrraedd mannau na fyddem fel arfer yn ei wneud. Golyga hefyd y gall pobl yr ardal sy'n gweithio oddi cartref a'r rhai sydd wedi symud o'r ardal ddarllen yr hanesion a chadw mewn cysylltiad.

Braf meddwl bod pobl yn yr Amerig, Awstria, Twrci, Canada, Yr Eidal, Sbaen ac Awstralia wedi ymweld â gwefan Clonc yn y flwyddyn ddiwethaf. Ceir diddordeb mawr yn Awstralia gyda llaw, gyda'r ymwelwyr yn treulio 7.42 munud ar gyfartaledd ar y wefan ac yn ymweld â 12.67 tudalen ar bob ymweliad.

Datblygiad diweddaraf Papur Bro Clonc yw ymuno â gwefan rhwydweithio **Facebook**. Os ydych yn aelod, gallwch ddod yn ffrind i Clonc ac ymuno â Grŵp Papur Bro Clonc. Bwriad y cynllun hwn yw dod â chyhoeddusrwydd i'r papur bro ymhlith pobl ifanc yn ogystal â dod ag aelodau â'r un diddordeb at ei gilydd yn yr ardal. Wrth i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg mae gan Clonc rhyw 200 o ffrindiau. Mantais fwyaf rhwydweithio ar Facebook yw y gallwch ddewis Cymraeg fel yr iaith ryngwyneb.

Ond mae presenoldeb Clonc ar we yn mynd nôl rhai blynyddoedd. Mae Clonc wedi cyhoeddi un erthygl y mis ar wefan **BBC Cymru'r Byd** ers 2003.

Cred Clonc y dylid bod ar flaen y gad gyda'r dechnoleg ddiweddaraf. Pwy a wyr, efallai mai ar y we fydd papurau newydd a phapurau bro'r dyfodol. Rydym felly mewn trafodaethau gyda Chwmni **Golwg** i fod yn rhan o'r gwasanaeth newyddion newydd ar y we. Mae hyn i gyd yn gyffrous iawn a'r gobaith yw mai darllenwyr Clonc fydd yn elwa yn y pendraw.

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Gwesty'r Grannell
Llanwnnen
Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyo ar gyfer pob achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

Lle aeth pawb?

Plant Plwyf Pencarreg 1934 – y llun drwy garedigrwydd Ruthi Williams, Rhiwlas, Cwmann.

O'r blaen: Griff Jones, Frowen, Edwin Evans, Cilgell Isaf, Lloyd, Fferm Beilicoch, Bryn Davies, Tanllan, Pencarreg, David Charles, Llwyncrwn, Mary Hanha Thomas, Alun Abel Maesbach, Dewi Thomas, Claret, Eirwen Thomas, Pantyronnen fach, Nansi Davies, Tanllan, Nesta Davies, Elin Williams, Dolgwm Isaf, Ruthi Russell, Gellifelen, Mair Jones, Frowen, Gwendolin Evans, Rhydowen, Eirwen Pantyronnen Fawr, Yvone Edwards, Cefnbryn, Doris Davies, Llwynrhwch, Edith Richards, Felin Dolgwm, Buddyg Abel, Maesbach, Anie Thomas, Claret House, Roy Davies, Llwyncrwn. Phyllis Evans, Cilgell Isaf, * Elizabeth Ann (wyres Davies Cilgell Ganol), Hubert Johns Ty Huw, Wyn Thomas, Pantyronnen fach, Henry Railway Terrace, Cwmann, Jack Davies, Dilwyn Davies, Tanllan Fawr, Douglas Davies, Bungalow, Pencarreg, David Tom Davies, Gwarffynnon, Pencarreg.

* Roedd Elisabeth Ann yn ferch i Tom a Gladys a fu yn Wernfraith. Bu Tom farw o TB a'i ferch yn wyth oed. Bu plant Ysgol Pencarreg yn yr angladd a chanu "Bugail Iesu sy'n ofalus, am ei dynner annwyl ŵyn".

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Ddechrau mis Chwefror, daeth y newyddion da bod £387,000 wedi cael ei neilltuo gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella darpariaeth y tai fforddiadwy yng Ngheredigion. O dan y cynllun – a gyhoeddwyd gan Weinidog Tai Plaid Cymru, Jocelyn Davies AC – fe all cymdeithasau tai lleol ddefnyddio'r arian i brynu tai gwag sydd ar werth cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Dyma'r rhan gyntaf o fuddsoddiad gwerth £42m mewn tai fforddiadwy ar draws Cymru yn ystod y tair blynedd nesaf, ac rwy'n gobeithio y cawn fwy o wybodaeth am siâr Ceredigion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn y dyfodol agos.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones AC, fanylion am gais Llywodraeth y Cynulliad am yr hawl i ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Tra mai dim ond cam cyntaf y broses yw hwn, mae'n sicr yn synhwyrol datganoli cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg i'r Cynulliad yn hytrach na'i gadw yn San Steffan. Yn benodol, mae'r cais yn gofyn am y gallu i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir gan gwmnïoedd mawr sy'n darparu gwasanaeth, fel cwmnïau ynni a thelegyfathrebu. Yn sicr, bydd hyn yn help i gynyddu statws yr iaith Gymraeg fel un o ieithoedd swyddogol Cymru.

Yn hwyrach ym mis Chwefror, fe groesawais y Gweinidog Treftadaeth i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth er mwyn cwrdd â chynrychiolwyr y staff a thrafod y pryderon am sefyllfa bresennol y llyfrgell. Roeddwn yn falch iawn bod Alun Ffred Jones AC wedi derbyn fy ngwahoddiad ac wedi cydnabod pwysigrwydd y sefydliad a gwaith caled y staff i ddiogelu nifer o'n trysorau fel cenedl. Rwyf nawr yn gobeithio y bydd y Gweinidog ac undebau'r staff yn parhau i drafod y materion a godwyd yn ystod ein cyfarfod ac rwyf innau fel yr Aelod Cynulliad lleol yn llwyr gefnogol o'r llyfrgell a'i gwaith.

Cefais gyfle yn ystod mis Chwefror i ymweld â llety cysgodol Glyn Padarn yn Llanbadarn Fawr i gwrdd â'r preswylwyr. Yn ystod yr ymweliad, fe dynnwyd fy sylw at y problemau y mae rhai ohonynt yn eu cael wrth ddefnyddio'r gwasanaeth bws lleol ac rwyf yn awr wedi codi'r mater gydag Arriva er mwyn iddynt allu gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Terry Jones
Ffotograffydd
www.terrywjones.co.uk
1 Cwrt Deri
Cwmann
Llanbedr Pont Steffan
01570 421 173
07970825724

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref
Torri a sychu, steilio a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.
Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Sarn Helen

Ddechrau mis bach aeth rhedwyr y clwb i Lanfair-ym-Muallt i ras pencampwyr traws gwlad Cymru. Carwyn Thomas yn ennill y fedal arian i fechgyn dan 23 oed mewn amser 30 munud a 43 eiliad. Ac yn ras y dynion hŷn, Glyn Price yn gorffen yn safle 25, 41 munud a 45 eiliad, 28 - Michael Davies 42 munud 23 eiliad, 42 -Richard Marks 46 munud 51 eiliad, 43 - Mark Dunscombe 47 munud 23 eiliad a 55 - Lyn Rees 52 munud 15 eiliad. Caryl Davies yn gorffen yn y pumed safle i'r merched o dan 23 oed 32 munud, a Rhian Jones yn 40 – 17 munud a 30 eiliad i'r merched o dan 13oed.

Yn y ras 10K yn Aberteifi Carwyn Thomas yn ennill mewn amser da, 35 munud 28 eiliad. Lyn Rees yn 15, a Jan Jones yn 19eg, a Jan hefyd yn cael y drydedd wobr i'r merched dros 35.

Disgleiriodd Clwb Sarn Helen yn ras hanner marathon Cors Caron Tregaron. Glyn Price yn ennill y categori vet 40 a Michael Davies yn ail. Hefyd Michael yn cael y wobr gyntaf i'r dynion lleol. Vet 55, Murray Kisbee yn gyntaf a Lyn Rees yn drydedd. Caryl Davies yn gorffen yn drydedd i'r merched dan 35 ac hefyd Caroline John yn drydedd i'r merched dros 35.

Dyma ganlyniadau'r dydd: 3ydd Glyn Price 1 awr 20 munud 30 eiliad, 4 -Michael Davies 1 awr 30 munud 37 eiliad, 9 - Carwyn Thomas 1 awr 27munud a 25 eiliad, 13 - Huw Price 1 awr 28 munud 30 eiliad, 16 -Mark Dunsombe 1 awr 29 munud 26 eiliad, 26 - Murray Kisbee 1 awr 36 munud 43 eiliad, 29 - Caroline John 1 awr 38 munud 58 eiliad, 40 - Haydn Lloyd 1 awr 44 munud 13 eiliad.

42 - Lyn Rees 1 awr 45 munud 32 eiliad, 53 - Caryl Davies 1 awr 51 munud 37 eiliad, 68 - Jan Jones 2 awr 6 munud 24 eiliad, 79 - Gudrun Jones 2 awr 26 munud 10 eiliad a 81 - Allen Watts 3 awr 2 funud a 3 eiliad.

Pedwaredd cyfres y trawsgwlad yn cael ei chynnal yn Aberhonddu. Richard Marks yn gorffen yn safle 90 mewn 41 munud a 30 eiliad, ac yn y ras i'r menywod Jan Jones yn 72 – 33 munud a 3 eiliad, a Sue Jenkins 91 – 41 munud a 3 eiliad.

O Siambr Sir Gâr

gan Pryfyn

Ydych chi'n gallu gyrru? Neu ydych chi'n gorfod dibynnu ar gymwynas gan gymydog? Maen nhw'n gwestiynau braidd yn hurt i rywun sy'n byw yng ngogledd Sir Gaerfyrddin. Rhaid wrth gar yn aml er mwyn cyrraedd y capel yn ogystal â siop y pentref. A rhaid picio yn y car o bryd i'w gilydd am y nwyddau hynny na ellir mo'u prynu'n lleol. I Gaerfyrddin neu i Gastellnewydd Emlyn neu i Landeilo yn amlach na heb yn achos Prifyn a Prifen (a'r pryfedyn bach).

Mae dros 2,000 o'n busnesau bach yn cau bob blwyddyn a chyfleon am gyflogaeth yn lleol yn mynd i'w dilyn. Dyma'r union gwmnïau sy'n cyflogi pobl leol ac erbyn hyn mae 7% o weithlu Cymru heb waith a phedwar person yn cynnig am bod swydd wag yn Sir Gaerfyrddin. Ein cwmnïau lleol yw'r union gwmnïau sy'n talu eu trethi'n lleol. Dyma'r union gwmnïau sy'n buddsoddi yn yr economi leol. Dyma'r union gwmnïau sy'n help i gynnal y gymdeithas leol - yr ysgol leol, y siop fach leol, y capel. Dyma'r cwmnïau sy'n cyflogi cyfrifwyr, cyfreithwyr, contractwyr, plymwyr, adeiladwyr, argraffwyr a thrydanwyr lleol. Ac mae elw'r gwasanaethau hyn yn aros yn lleol ac yn cylchdroi'n lleol, yn hytrach na diflannu dros ffin y sir a thros ffin y wlad fel y gwna yn achos pob archfarchnad a siop gadwyn a sefydlwyd ar gyrion ein trefi.

Ac ar adeg o wasgfa ar deuluoedd ac ar fusnesau bychain roedd clymblaid yr Annibenwyr-Llafur yn Sir Gaerfyrddin yn awyddus iawn i wneud pethau'n waeth i fusnesau lleol trwy gyflwyno taliadau parcio yn Heol Awst, Caerfyrddin. Ac roedd hyn ar ben y cynnydd o 150% mewn taliadau a welwyd mewn meysydd parcio ers sefydlu'r glymblaid yn Sir Gaerfyrddin.

Ac roedd gwaeth yn yr arfaeth: roedd yn fwriad hefyd i godi cost parcio ym mhob maes parcio yn Sir Gaerfyrddin – ergyd arall i deuluoedd a busnesau cefn gwlad. Ond cewch barcio am ddim ar fuarth anferth yr archfarchnad. A dyna frawl archfarchnadoedd Sir Gaerfyrddin wrth hysbysebu'n feunyddiol ar Radio Sir Gâr.

Ond mae'n gamarweiniol honni y gallwch barcio heb gost ar fuarth yr archfarchnad. Fe welwch y gost yn eglur yng nghanol tref Llanelli; y canol marw lle mae'r busnesau bach wedi'u llindagu. Disgrifiwyd y canol gan un ymwelydd yn ddiweddar fel y peth agosaf a welodd hi erioed i ganol Beirut.

Llwyddwyd i wrthsefyll bwriadau Bwrdd Gweithredol Sir Gaerfyrddin yn nhrefi Sir Gâr y tro hwn. Pleidleisiodd ein cynrychiolwyr lleol ar y Cyngor Sir (Eirwyn, Fiona a Linda) o blaid cefnogi eu cymunedau lleol.

Ond rhybuddiwyd trethdalwyr y sir y byddai Bwrdd Gweithredol yr Annibenwyr-Llafur yn ailgyflwyno'r cynnydd mewn costau ym mis Ionawr 2010. Un o fân swyddogion y Cyngor Sir a gyhoeddodd hyn i'r Wasg. Doedd dim smic o geg yr un o Aelodau'r Bwrdd Gweithredol nac o geg y rheini o gyffelyb ddaliadau a gefnogodd cynyddu'r costau. Pam maen nhw mor awyddus i gosbi trethdalwyr a thrigolion Sir Gâr?

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

MAWRTH

5 Noson Bingo yn Cefnhafod, Gorsgoch am 7:30y.h. Bydd yr elw yn mynd tuag at Cylch Meithrin Drefach.
6 Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7:00y.h. Eitemau gan Blant yr ysgol a'r Parti 'Ffrindiau'.
6 Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth.
6 Rhoi Gwaed yng Ngholeg Llambed 10.30-6.00.
7 'Swper Cawl' i ddathlu Gŵyl Dewi gyda Chôr y Llan, Llanelli yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30y.h.
11 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambed yn Neuadd Ysgol Gyfun Llambed.
11 Darlith gan Dr Angharad Price ar y testun 'Monica mewn Cyffion' 5y.h. yn Narlithfa Tucker, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan.
13 Rhoi Gwaed yng Ngholeg Llambed 10.30-6.00.
14 Noson caws a gwin yn y Llew Du Llanybydder dan nawdd Cangen Llanybydder Cymdeithas Diabetes UK Cymru.
18 Eisteddfod Dawns ac Aelwydydd Rhanbarth Ceredigion yn Neuadd Fawr Aberystwyth.
18 Cynhelir yr Arwerthiant Blynyddol yn Festri Aberduar am 7 o'r gloch. Agorir y noson gan Marc Griffiths (Tower Cottage gynt).
18 Reslo yng Ngholeg Llambed am 7.30.
19 Twmpath a the Cymreig gan W.I. Cellan am 7.30 y.h. yn Neuadd y Mileniwm, Cellan.
20 Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Uwchradd Ceredigion yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.
20 Rhoi Gwaed yng Ngholeg Llambed 1.00-7.00.
22 Rihyrsal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel Pantydefaid - plant am 4y.p. ac oedolion am 5y.h..
22 Rihyrsal y Bedyddwyr yn Bethel Cwm Pedol am 3y.p.
28 Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Cynradd Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
29 Rihyrsal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi - plant am 3 ac oedolion am 4.
29 Oedfa'r Ifanc yng Nghapel Noddfa.

EBRILL

3 Twmpath Dawns yn Neuadd y Mileniwm Cellan i godi arian at Apêl Eisteddfod yr Urdd am 7.30 y.h. Mr Erwyd Howells yn galw.
5 Rihyrsal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel y Cwm plant am 3y.p. ac oedolion am 4y.p.
11 Cinio Sioe Frenhinol Cymru 2010 ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
15 Eisteddfod Capel y Groes i ddechrau yn brydlon am 1.30y.p.
18 Cwmni Cudyll Coch yn perfformio dwy gomedi yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. Llywydd: Mrs Rona Morgan, Derwen Fawr, Caerfyrddin.
19 Rihyrsal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel y Groes - plant am 4y.p. ac oedolion am 5y.p.
21 - 24 Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.
24 Ocsiwn Addewidion yn Y Talbot Tregaron, elw tuag at gronfa Ysgol Y Dderi.
26 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel y Groes, Llanwnnen. Plant a Ieuenctid am 2y.p. ac Oedolion am 5:30y.h.

MAI

10 Rihyrsal y Bedyddwyr – Salem Caio am 3:30y.p.
17 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr yng Nghapel Caersalem Parcyrhos am 2.30y.p. a 6y.h.

MEHEFIN

6 Rali C.Ff.I. Ceredigion ym Mydroilyn.

GORFFENNAF

4 Ffair Haf Ysgol Y Dderi.

AWST

1 Ffair Fwyd Llambed, Gerddi Prifysgol Cymru Llambed.

MEDI

13 - 19 Apêl y Gors – wythnos o godi arian yng Ngorsgoch.

HYDREF

5 Cinio Dathlu Diemwnt S.Y.M. Coedmor Cwmann yng Ngwesty Glynhebog Llambed.

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Bu dau dîm yn cystadlu yn y Cwis Llyfrau sef Sara, Betsan, Gavin a Jac (Blwyddyn 5 a 6) a Sioned, Jasmine, Rhian G (Blwyddyn 3 a 4). Cawsant ganmoliaeth am eu gwybodaeth o'r llyfrau. Da iawn chi.

Aeth tîm o ferched i gystadleuaeth pêl rwyd yr Urdd, Cylch Llambed, yng Nghanolfan Hamdden Llambed. Chwaraeodd y merched yn dda gan ystyried fod nifer ohonynt ond ym mlwyddyn 4. Y merched oedd – Sara, Betsan, Beth, Jasmine, Sophie, Rhian Th, Mair a Sioned.

Cafodd yr Adran Iau wahoddiad i fynd i Ysgol Llanybydder am brynhawn i wneud gweithgareddau gwyddoniaeth Science Made Simple. Roedd yn brofiad addysgiadol a diolch i ysgol Llanybydder am y croeso. Diolch hefyd i Ysgol Cae'r Felin, Pencader am wahodd plant blwyddyn 5 a 6 i weld perfformiad gan Theatr Arad Goch o'r enw 'Merched y Gerddi'.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Chwefror: £10 – 45 – Tomos, Pantffynnon, Llanwnen, £5 – 152 – Sioned Howells, Pantglas, £2.50 – 158 – Elaine Evans, 3 Lôn y Felin, Talog, £2.50 – 42 – Ifor Jones, Highview, £2.50 – 30 – Nia Griffiths, Maes-yr-Onnen, Llanfihangel

Hanes Diddorol o Llanllwni

Diddorol oedd darllen yn ddiweddar hanes Thomas Noah Cole a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu batris a radio Ever Ready a Vidor. Ganed Thomas Noah Cole yn Pendderi, Maesycrugiau yn 1891 ac fe'i bedyddiwyd yn Eglwys Llanllwni gan y Parch Joshua Davies ym mis Ebrill 1892, yn fab i Noah Cole [peiriannydd morwrol] a'i wraig Harriet. Ar ôl symud i Gaerdydd i fyw, sefydlodd gwmni llwyddiannus iawn Lisswen Ltd a oedd yn gwneud rhannau radio a batris. Prynwyd ei gwmni yn 1928 gan 'Ever Ready' am £1 miliwn ond parhawyd i ddefnyddio enw cwmni Lissen gyda Mr Cole yn brif weithredwr hyd ddechrau yr ail ryfel byd. Yn nes ymlaen ffurfiwyd cwmni arall llewyrchus iawn sef 'Vidor' a oedd eto yn gwneud setiau radio a batris. Y mae enw'r ddau gwmni yma yn adnabyddus iawn i bawb a rhyfedd meddwl fod y perchennog yn wreiddiol o Lanllwni.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Paul Obadison, Tafarn y Railway ar golli ei dad yn ddiweddar. Roedd yr angladd yn Llundain. Cydymdeimlir hefyd ag Ina Morgan a'r teulu, 21 Bryndulais ar farwolaeth gŵr a thad annwyl, Delme. Bu'r angladd yn Eglwys Santes Fair, Pencader.

Diolch

Dymuna swyddogion y papur Bro hwn 'CLONC' ddiolch i G Ff I Llanllwni am eu rhodd hael o £51.10 i goffrau'r papur. Mae'n hyfryd gweld ieuenctid y fro yn meddwl am fudiadau sy'n hybu gweithgareddau Cymraeg. Gwerthfawrogwn eich cyfraniad yn fawr iawn.

O'r Cynghorau Bro

Cyngor Bro Llanybydder

Cadeirydd: Fiona Hughes, Clerc: Mavis Beynon, Cynghorydd Sir: Fiona Hughes, Cyfarfu'r Cyngor ar 27 Ionawr 2009

Talwyd teyrnged i Mr William Evans (Will Wern) a fu farw'n ddiweddar, am ei wasanaeth diwyd yn Gynghorydd Sir yn yr ardal.

Cadarnhawyd bod lle gwag ar y Cyngor Bro oherwydd ymddiswyddiad Ieuan Davies. Mae lle gwag o ran cynrychioli Rhydcymerau hefyd. Dylai'r rheini â diddordeb yn y swyddi hyn gysylltu â'r clerc yn y lle cyntaf.

Mae cyfarfod wedi'i drefnu am 7.30, ar 19 Chwefror yn y Llew Du i drafod posibilrwydd sefydlu pwyllgor i drefnu ffair a goleuadau Nadolig a gwerthiant planhigion gardd.

Penderfynwyd cysylltu ag Adam Price AS am gyflwr cyffredinol heolydd y ward. Cytunwyd bod diffyg gwaith cynnal a chadw yn achosi problemau dybryd.

Hysbyswyd y Cyngor Bro bod cyfarfod tenantiaid/trigolion i'w gynnal ar 5 Chwefror am 2.00 yn Festri Aberduar. Bydd y pynciau dan sylw yn cynnwys cynllun amgylcheddol Llanybydder. Mae'r cyfarfod ar gyfer tenantiaid a thrigolion Bro Einon, Heol y Gaer a Heol y Dderi a brynodd eu tai dan y cynllun 'hawl i brynu'.

Bydd meddygfeydd misol y Cyng. Fiona Hughes a'r Cwnstabl Rhydian Jones yn cael eu hestyn i gynnwys Christopher Lloyd (swyddog tai).

Cyfeiriwyd at y bws cymunedol a mynegwyd gwerthfawrogiad am yr ymdrech a wnaed i sicrhau'r gwasanaeth at y dyfodol.

Cyngor Cymuned Llan-y-crwys

Cadeirydd: J C Williams, Clerc: Jean Stacey, Cynghorydd Sir: Eirwyn Williams, Cyfarfu'r Cyngor ar 8 Ionawr 2009

Cyfarfu'r Cyngor yn ôl ei arfer ar ail ddydd Iau'r mis. Dyma gyfarfod cyntaf y flwyddyn.

Talwyd £88.34 am drydan i'r pentref a chyflwynwyd £15 yr un at Elusen Macmillan ac i Gyngor ar Bopeth yn Rhydaman.

Er bod y Cyngor wedi cwyno ers blynyddoedd am gyflwr yr heol o Esgaircrwys i Ben-y-banc, mae'r gwaith yn dal heb ei wneud. Penderfynwyd anfon cwyn arall at y Cyngor Sir.

Trefnwyd cyfarfod i drafod cyflwr Heol y Felin Rhosybedw.

Wedi rhew anarferol o galed eleni mae llawer o dyllau yn y ffyrdd a phenderfynwyd cysylltu â'r Cynghorydd Sir.

Gofynnwyd am braesept o £750 am 2009-2010.

Ni chafwyd ymateb gan y Cyngor Sir i'r cais am gyfarfod i drafod Elusen Tŷ'r Ysgol, Llan-y-crwys.

Cyngor Cymuned Llan-y-crwys

Cadeirydd: J C Williams, Clerc: Jean Stacey, Cynghorydd Sir: Eirwyn Williams, Cyfarfu'r Cyngor ar 12 Chwefror 2009

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sir yn dilyn y cyfarfod am gyflwr Heol y Felin. Cadarnhawyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw cynnal a chadw'r heol hon ac felly mae'r rheolau am ei chadw yn glir yn union yr un fath â phob heol arall.

Nodwyd bod rhai o'r tyllau yn y ffyrdd wedi eu llenwi.

Gwnaed y taliadau am ddŵr yn y tai bach a diolchwyd i'r Cyng. D T Williams a 'r Cyng. D T Jones am eu gwaith yn eu hatgyweirio yn dilyn y tywydd eithafol. Talwyd D Lloyd a'i Feibion am ddefnyddiau. Aildrefnwyd y rota glanhau am eleni.

Nodwyd bod y piano o'r ysgol yn ei le bellach.

Cyflwynwyd rhoddion o £15 yr un at Shelter Cymru ac i Gofal mewn Galar.

Cyngor Tref Llambed

Maer: Derek Wilson, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris

Cynghorydd Sir: Ivor Williams, Cyfarfu'r Cyngor ar 17 Chwefror 2009

Croesawodd y Maer yr aelodau i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Swyddfa Menter Llambed ac ymwelwyd yn ddiweddarach â Chae Maesyderi.

Yn dilyn cyfarfod diweddar y Cabinet, mae Cyngor Ceredigion wedi cytuno gosod Cae Maesyderi ar brydles i Gyngor y Dref yn amodol am gyfnod o dair blynedd. Y gobaith yw y bydd y maes o fudd i'r gymuned.

Cyngor y Dref fyddai'n gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ar y cae gan gynnwys ffensio, torri'r borfa ac yswiriant. Petai Cyngor y Dref am ddirwyn y trefniant i ben, byddai angen rhoi 6 mis o rybudd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26.02.09

Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Adrian Davies, Clerc: Eric Williams, Cynghorydd Bro a Sir: Eirwyn Williams, Cynghorydd Sir: Fiona Hughes, Cyfarfu'r Cyngor ar 2 Chwefror 2009

Mae'r Cyngor Bro yn dal i ddisgwyl i'r Cyngor Sir drwsio'r difrod a wnaed i'r wal a'r palmant o Gwmann i Bont Teifi. Mae'r bolards i ddiogelu'r palmant a'r lawnt ger Motor World wedi eu haddo ers dros flwyddyn – ac rydym yn dal i aros.

Roedd y Cyngor yn falch i gael yr arwydd newydd ar ben Hewl Fach ger Talfoel i rwystro cerbydau mawr rhag gyrru ar hyd Hewl Fach o'r A482 trwy Barc-y-rhos i'r A485. Er i'r arwydd gael ei osod, mae lorïau mawr yn dal i fentro ar hyd y ffordd hon gan wneud difrod i'r cloddiau ger Fferm Ddeunant ac i'r arwydd newydd.

Gobeithio y bydd y Cyngor hefyd yn brysio i ledu'r pafin ger Lleinau er diogelwch plant yr ysgol.



Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Bu'r disgyblion hŷn yn dra ffodus y tymor yma i fod yn rhan o weithdai yn ymwneud â storïau'r Hen Destament dan arweiniad Mr. a Mrs. Nam o Gymdeithas 'Ymchwilio'r Beibl'. Yn ddiweddglo i'r gyfres o sesiynau Beiblaidd yma, fe fydd pob aelod o'r ysgol yn derbyn Beibl yn rhodd oddi wrth y Gymdeithas cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Diolch yn fawr iddynt am eu haelioni.

I hybu sgiliau darllen y plant, rydym wedi dechrau cynnal sesiynau Darllen Difyr. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr gymorth parod Mrs. Liz Fillery a Mrs. Mary Thomas gyda'r gwaith yma.

Gan ein bod wedi creu llyfrgell yn yr ysgol trefnwyd ein bod yn mynd i'r Llyfrgell yn Llambed er mwyn cael ychydig o flas ar arfer dda. Cafodd pawb y cyfle i ymaelodi ac aethom yn ôl i'r ysgol yn llwythog.

Ddiwedd Ionawr teithiodd yr Ysgol gyfan i ardal Aberystwyth. Ymwelodd y disgyblion hŷn ag Amgueddfa Ceredigion yn gyntaf yng nghanol y dref. Mwynhaodd y plant y cyfle i gael eu tywys o gwmpas a gweld yr holl greiriau. Yna, fe wnaeth Mr. Rh. Morgan ein croesawu ni i'r Llyfrgell Genedlaethol. Cawsom y fraint o gael ein tywys o gwmpas ardaloedd nad yw'r cyhoedd yn cael mynd iddynt. Yna, i orffen aethom i werthfawrogi Arddangosfa o luniau gan Leonardo De Vinci.

Aeth y babanod ychydig ymhellach ar hyd yr arfordir nes cyrraedd Anifeilfa Borth! Ac i'n croesawu fe ddaeth yna dri o foch anferthol a theulu o beunod prydferth. Cawsom wledd yn gwylio'r gwahanol anifeiliaid ac adar ond y ddau uchafbwynt oedd dal y nadredd anferthol a theimlo'r crwban bach newydd ei eni! Roedd y wibdaith yma yn un a erys yn y cof am amser gan ein bod wedi gweld a chlywed llawer o anifeiliaid ac adar anghyffredin. Ond ni aethom adref yn waglaw! Ar ôl i bawb gael cyfle i ddal y nadredd cawsom groen un ohonynt i fynd 'nôl gyda ni i Fro Gwenog.

Ddechrau mis bach bu disgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Gyfun Llambed am wersi Gwyddoniaeth. Mae'r gwersi yma yn rhan o gynllun pontio rhwng Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Llambed.

Diolch i Mrs. Carys Davies am gynnal noson o Fingo a'r wythnos ganlynol i

Mrs. Hazel Thomas am ddod i ddangos sut i goginio amrywiaeth o grempogau yn Adran Urdd yr Ysgol. Dyna braf oedd cael y cyfle i'w blasu.

I gloi'r Adran am y tymor yma byddwn yn cynnal Taith Gerdded ar Nos Lun y 23ain o Fawrth.

Y Gymdeithas Hŷn.

Cyfarfu'r Gymdeithas yn Eglwys Llanwenog ar yr 11eg o'r mis gyda Mrs Dilwen George yn llywyddu. Croesawodd bawb i'r cyfarfod a diolchodd am groeso gwragedd yr Eglwys. Ychwanegodd y Parch. Bill Fillery ei groeso yntau ar ran yr Eglwys.

Derbyniwyd llu o ymddiheuriadau ac estynnwyd cydymdeimlad â theulu y diweddar Pat Mealing a oedd wedi ymaelodi â'r gymdeithas ac yn edrych ymlaen at ymuno yn y cyfarfod yma. Cydymdeimlwyd hefyd â Mrs Ray Thomas, Castell Du, wedi colli chwaer yng nghyfraith. Dymunwyd gwellhad buan i Mair Williams, Gwilym Davies, Mrs Beaumont a Mrs Eva Davies sy'n dal yn Ysbyty Glangwili.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chynigwyd eu bod yn gywir gan Dan Jones ac eiliwyd gan Jim Evans.

Braint y llywydd oedd croesawu Mr Ieuan Roberts i roi hanes Trec Mencap Cymru i Batagonia. Soniodd am ei ddiddordebau, yn aelod gweithgar o Gymdeithas Edward Llwyd, yn Llywydd Cylch Cinio Llambed a soniodd hefyd am ei ddiddordeb arbennig mewn gwaith coed.

Cafwyd hanes taith ddiddorol dros ben wedi'i chofnodi mewn darluniau godidog.

Diolchwyd iddo gan Dan Jones. Yn dilyn, cafwyd te hyfryd yn y festri fach a diolchwyd i'r gwragedd gan Mrs Beryl Lewin.

Neuadd y Pentref – Clwb 100

Ionawr: Betty Davies £10; Ada Williams £5. Chwefror: Sheila Davies £10, Megan Evans £5.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Annie Bowen, Arosfa a gollodd ei brawd yn sydyn iawn yn ddiweddar.

Marwolaeth

Syfrdanwyd yr ardal wrth glywed am farwolaeth sydyn Pat Mealing, Derlwyn, Drefach. Symudodd hi a'i phriod i'r ardal 22 o flynyddoedd yn ôl. Bu'n gweithio yn Slimma am flynyddoedd a bu'n weithgar eithriadol ym mywyd y plwyf, yn garedig dros ben ac yn cefnogi pob ymdrech i godi arian i wella cyfleusterau'r plwyf.

Wedi hir ddisgwyl, edrychai ymlaen at weld cartref newydd yn cael ei adeiladu ar dir Derlwyn iddi symud iddo. Roedd adeiladwr lleol wedi dechrau gosod y rhestr gyntaf o flociau pan fu farw Pat.

Cafodd wasanaeth parchus iawn o dan ofal y ficer, y Parch Bill Fillery, ar y 9fed o Chwefror, cyn mynd â'i chorff i Amlosgfa Arberth. Gwasgarwyd ei llwch yn yr un man â'i phriod, Ron, a fu farw 5 mlynedd yng nghynt.

Sefydliad y Merched.

Dechreuwyd gweithgareddau Ionawr gan ein llywydd Mrs Liz Tipping yn croesawu tair aelod newydd. Wedyn bu Margaret Griffiths yn rhoi hanes ei thaith drwy Awstralia trwy gyfrwng sleidiau.

Roedd wedi mynd allan gyda'i theulu ac wedi teithio llawer ac ymweld â mannau diddorol iawn, y Barrier Reef, Ayer's Rock, Cairns a nifer o fannau diddorol arall. Mwynhawyd noson ddiddorol iawn.

Taenwyd ton o dristwch dros y sefydliad trwy golli aelod ffyddlon a gweithgar iawn, sef Pat Mealing. Trefnwyd gyrfa 'Chwilen' (Beetle Drive) yng nghyfarfod Chwefror a chodwyd swm o arian i Ambiwlans Awyr Cymru er cof am Pat. Roedd bron pob aelod yn bresennol.

Eglwys y Santes Gwenog.

Syfrdanwyd ardal eang gyda'r newydd trist am farwolaeth Pat Mealing. Bu'n weithgar iawn yn y gymuned, yn rhoi ei hamser a'i brwdfrydedd i gynorthwyo pob achos da. `Roedd Pat yn ffyddlon yn yr Eglwys a datblygodd hyder wrth drefnu blodau ac fe hoffai drefnu a gosod blodau a oedd yn berthnasol i'r tymhorau Eglwysig.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu hiraeth.

Llongyfarchiadau i'r Clwb Ffermwyr Ifanc ar eu llwyddiant ysgubol yn y Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg. Pob lwc iddynt yng nghystadleuaeth y Pantomeim.

Cydymdeimlwn â Mrs Marian Morgan, Glasfan gan fod ei mamgu, Mrs Sally Davies, (Maesmynach gynt) wedi marw yn y dyddiau diwethaf. Cofiwn am bawb sy'n galaru ac am bob un sy'n anhwylus. Ein cofion gorau i Mrs Eva Davies sy'n dal yn Ysbyty Glangwili.

Clwb 100 Ionawr. 1. Carol a Jeff Thomas. 2. Nancy a Wyn Davies, 3. Anita Evans. Chwefror. 1. Anthony Davies, 2. Jonathan Goodall, 3. Catherine Bone.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Annie Bowen, Arosfa yn dilyn marwolaeth sydyn ei brawd, Iwan lawr ym Mhentrecagal.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Gareth Jones, Cefnrhuddlan Uchaf yn well ar ôl ei anhwylder yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sioned Hatcher, Abernant ar basio arholiad gradd 4 gyda merit. Da iawn ti a phob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Penblwyddi arbennig

Yn ystod yr wythnosau diwethaf dathlodd Caroline Davies, Llysderi, Nans Davies, Bryndolau a Mary Davies, Maesglas benblwyddi arbennig. Iechyd da i chwi eich tair eto i'r dyfodol.

Diolch

Gair byr ar ran Mary, Maesglas i ddiolch i bawb am y pentwr cardiau, anrhegion, blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar. Gwerthfawrogir y cyfan oll yn fawr iawn.

Silian

Priodas Dda

John Morgan, Cysgod-y-Coed, Silian a Bethan Lewis, Plas, Blaenpennal a briodwyd yng Nghapel Blaenpennal ddydd Sadwrn 24ain o Ionawr. Cafwyd y wledd yn y Grannell, Llanwnnen.

Diolch

Dymuna John a Bethan Morgan, Cysgod-y-Coed Silian, ddiolch o galon am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

Llanllwni mewn llyfr

Drwy ei yrfa hir ym myd y cyfryngau, mae'n rhaid bod y newyddiadurwr Sulwyn Thomas wedi gohebu ar filoedd o straeon. Ond y Nadolig diwethaf, adrodd ei stori ei hun oedd cyflwynydd adnabyddus y Stondin wrth iddo gyhoeddi ei hunangofiant.

Ganwyd David Sulwyn Jones Thomas yn Ysbyty Heol Prior, Caerfyrddin ar y trydydd ar ddeg o Fehefin 1943. Mae ei wreiddiau yn Llanllwni a bu'n byw am gyfnod yno hefyd. Yn ei lyfr mae'n adrodd hanes ei fywyd ac yn cyflwyno'r ardal sy'n golygu cymaint iddo. Meddai'r awdur, "Heb os nac oni bai, dwi'n 'Shirgar anobeithiol', chwedl D. J. Williams, am y rheswm mai hon yw'r sir orau yn y byd – mae Sir Gâr yn brydferthach na'r un sir arall i mi!"

Er iddo ddychwelyd yn anfodlon i'r ysgol i wneud ei Lefel A, erbyn diwedd haf 1961 roedd yn sefyll o flaen Mr Froom Tyler, golygydd y South Wales Evening Post, ac yn dechrau ar ei yrfa fel newyddiadurwr. Meddai Sulwyn, "Roedd 'na bobol hynod o dalentog wedi dringo'r grisie i stafell newyddion y South Wales Evening Post o 'mlaen i. Un ohonyn nhw oedd y bardd mwya adnabyddus o blith Cymry di-Gymraeg Abertawe, y diweddar Dylan Thomas."

Wedi bwrw'i brentisiaeth fel gohebydd papur newydd lleol, daeth cyfle annisgwyl i gamu i fyd teledu yn 1964 a dod yn aelod o dîm Y Dydd, rhaglen ddyddiol newydd TWW. Yn fuan iawn, sylweddolodd y cynhyrchydd Owen Roberts nad oedd bywyd y ddinas yn dygymod â Sulwyn, ac y byddai'n fwy defnyddiol allan yn y Gorllewin yn chwilio am straeon – ac felly y bu.

Yn y gyfrol, mae Sulwyn yn cyfeirio at lawer o'r 'straeon mawr' a ddaeth i'w batsh fel newyddiadurwr yn ystod ei yrfa – o fygwth boddi Llangyndeyrn yng Nghwm Gwendraeth i achos llys Emyr Llewelyn a ffrwydriad Tryweryn, ac o isetholiad enwog Caerfyrddin yn 1966 i fuddugoliaeth y Sgarlets yn erbyn y Crysau Duon yn '72:

Daeth newid cyfeiriad arall yn 1977 wedi i Sulwyn adael HTV a rhaglen Y Dydd i ymuno â'r BBC a rhaglen Heddiw, ac wedyn ddwy flynedd yn ddiweddarach, cael y cyfle cyntaf i gyflwyno'r rhaglen newydd ar Radio Cymru a fyddai, ymhen amser, yn troi'n Stondin Sulwyn. Daeth y rhaglen honno'n rhan o fywyd bob dydd y Cymry Cymraeg – a Sulwyn ei hun – am un mlynedd ar hugain.

Tra bod brwdfrydedd heintus Sulwyn Thomas am ei alwedigaeth yn byrlymu drwy'r hunangofiant hwn, mae yma hefyd stori bersonol am y gŵr, y tad, y taid, a'r dyn sy'n gwneud cymaint tros ei gymuned ac sy'n caru ei filltir sgwâr.

Diolch iddo am ganiatáu i bapur bro Clonc gynnwys detholiad o'i hunangofiant yn y rhifyn hwn.

Roedd Mam a Dat yn hanu o Lanllwni - pentre gyda'r hira yn y byd, am wn i - yn yr ardal wledig, amaethyddol rhwng Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan. Roedd Mam - 'Merienna' i bawb (o Mary Hannah, wrth gwrs) - yn un o dair merch Mr a Mrs Thomas Jones, y Neinant. Fe gollwyd un o'r merched yn ifanc, ac er i Anti Jane a Mam fyw i weld eu hwythdege, doedden nhwythe chwaith ddim yn gwbl gadarn eu hiechyd. Mam, efalle, oedd y wana, ac wedi colli tymhore lawer o ysgol. Serch hynny, roedd hi'n ddarllenwraig frwd - yn enwedig y Beibl.



Roedd hi'n amlwg bod y merched wedi'u codi ar aelwyd a weddai i siopwr mawr y pentre. Yn ogystal, roedd fy nhad-cu (na weles i erioed) yn gynghorydd sirol, ac felly'n ŵr o dipyn o ddylanwad yn y fro, ond mae'n ymddangos ei fod e'n or-hoff o'r ddiod gadarn wrth gymdeithasu'n braf a swnllyd yng nghoridore grym Sir Gâr.

Ond, mewn gwirionedd, doedd symud i Lanllwni ddim yn wrthun i ni fel plant. Roedden ni o'r crud, rywsut, wedi treulio pob gwylie yn Llanllwni 'da Wncwl Jack ac Anti Jane, oedd yn denantiaid Tŷ Gwyn. Fferm dri deg pump erw oedd Tŷ Gwyn, a llawer o'r cae ar fryn bach yn codi o'r hewl fawr. Syml iawn oedd y clos - stabl a beudy ynghlwm ar y chwith wrth i chi ddod lawr yr hewl fach; sied ar y dde, ysgubor o'ch blaen a'r tŷ ei hun yn sownd iddo. Yn y tŷ roedd 'na ddwy, os nad tair, ystafell wely lan llofft; parlwr ar lawr, a rŵm ffrynt. Ond y lle pwysica i bawb oedd sied sinc oedd wedi'i gludo, fel 'tai, i'r wal dan y berllan. Cegin amrwd oedd y sied - ystafell a oedd, i bob pwrpas yn iaith swanc ein dyddie ni, yn lolfa, gyda thân yn y pen pella, sgiw ar y dde a bwrdd cinio gyferbyn â hi o flaen y ffenest. Roedd popeth yn digwydd yn y sied. Roedd Wncwl Jack ac Anti Jane yn byw yn syml a braf, a'u dryse hwythe hefyd yn agored i bawb.

Galwyd Wncwl Jack unwaith yn 'rough diamond' ac roedd hynny'n go agos i'w le. Doedd e ddim yn sgolor – dim o bell ffordd. Alle fe ddim darllen nag ysgrifennu – dim ond ei enw – ac Anti Jane oedd yn gyfrifol am gadw trefn ar y llyfre a'r busnes. Ond roedd Wncwl Jack yn fachan craff pan ddôi hi'n fater o brynu a gwerthu yn y farchnad. Roedd e'n nabod anifail, ac yn gwybod pryd i werthu. Heblaw'r ddau geffyl, roedd 'da fe ryw wyth o wartheg godro, mochyn yn y twlc, ieir a Moss y ci. Magai bob ebol yn ofalus iawn, a'u dofi fel bod bois o Lundain bob amser yn cystadlu'n frwd ym mart Llanybydder i brynu epilion ceffyle Wncwl Jack ar gyfer 'y wâc la'th'.

I ni, felly, roedd y cyfan yn ddelfrydol. Rydw i wedi cael fy nghyhuddo droeon o ramantu cefen gwlad, ond dyna fel roedd pethe'n ymddangos i ni, blant bach sensitif, sidêt a pharchus o'r dre.

Ie sensitif. Doedden ni ddim yn cael gweld popeth yn Tŷ Gwyn, o na! Am ryw reswm, fe fydde Mam am fynd i siopa i Lanybydder neu Lambed bob tro bydde hi'n ddiwrnod lladd mochyn. Doeddwn i ddim i fod i glywed sgrechfeydd eger olaf yr hen fochyn. Roedd peryg i hynny'n hypseto ni, blant y dre. Yr unig arwydd a gaen ni fod y weithred wedi digwydd oedd pan fydde Anti Jane yn gwneud y cawl gore gefes i 'rioed – oedd fel consommé tene. Wedyn fydde 'na fara menyn a chaws, ac yna plated mawr o gig moch a thato a llysie i ddilyn. Doedd 'na ddim byd gwell i'w gael. Roedd 'na hefyd amddiffyn y bechgyn bach pan ddôi pawb i Tŷ Gwyn gyda'r nos am glonc, darllen pytie o'r Farmer and Stockbreeder, cymharu prisie, a bod yn dyst i'r tynnu coes diddiwedd rhwng Wncwl Jack ac Evan Evans, Cwm Ceiliog, a chyda Dic (Davies), Abercwm, yn arbennig. Digon o sbort ac adloniant i ni, oedd yn llyncu'r cyfan. Ond pan fydde materion dadleuol iawn, a'r tymheredd yn codi gydag ambell stori, roedd yn rhaid hel Eifion a minne i'r cae nos yn go handi. Yr un fydde'n digwydd o gwmpas y stand laeth ambell i nos Sul o haf ar ben ffordd Manorafon – y dynion yn smoco cetyn, dweud straeon a dadle am bob math o bethe, yn enwedig amaethyddiaeth, wrth ddisgwyl eu ffrindie 'nôl o Gei Newydd. Pwy fydde wedi dychmygu y bydde un o'r ddau blentyn yna o Gaerfyrddin, ymhen blynyddoedd, yn casglu pobol o gwmpas ei Stondin?!

Sulwyn - Cyfres y Cewri 33, Gwasg Gwynedd £7.95

Llangybi a Bettws

Hamdden

Treuliwyd prynhawn hyfryd iawn yng nghwmni Mr John Griffiths o Ledrod. Gwelsom luniau bendigedig a dynnwyd mewn coedwigoedd yn y Sir hon – pob un ohonynt â rhyw gysylltiad hanesyddol. Cawsom hanes Abaty Ystrad Fflur, teithiau'r Porthmyn a Phlas yr Hafod. Diolchwyd iddo gan Janet Farrow am brynhawn mor ddifyr, diddorol ac hanesyddol – hanes sydd ar drothwy ein drws. Bydd ein cyfarfod nesaf yn yr Hedyn Mwstard yn Llambed ar Fawrth 6ed am 12:30 i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Ein gŵr gwadd fydd y Parch Dyfrig Lloyd. Cydymdeimlwyd â Rowena Williams yn ei phrofedigaeth o golli brawd yng nghyfraith. Cafwyd te a bisgedi i ddiweddu'r cyfarfod wedi eu rhoi gan Dilys Godfrey a Maisie Morgan.

Merched y Wawr

Cafwyd noson bleserus iawn yng nghwmni diddan Eifion Davies o Drefach. Roedd ganddo anerchiad diddorol ac amrywiol sef 'Siprys' ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd iddo gan y llywydd. Fe fydd Gwyneth Evans a Gwyneth Jones yn cynrychioli'r gangen mewn Gyrfa Chwist yn y Llew Du. Dewiswyd dau gwestiwn ar gyfer y Gystadleuaeth Adnabod Bro. Fe fyddwn yn ymweld â Changen Tregaron ddechrau mis Mawrth. Bydd ein cyfarfod nesaf yn y Pantri ar nos Fercher, Mawrth 18fed i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant gyda'r wraig wadd, y Parch Eileen Davies. Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Jones a Deborah Jones. Enillwyd y gwobrau gan Gwyneth Jones ac Irene Lewis. I ddiweddu'r cyfarfod cawsom de a bisgedi wedi eu rhoi gan Eleanor Evans ac Iris Quan. Llongyfarchwyd Gwyneth Evans ar lwyddiant ei merch Susan. Mae Susan yn awr yn uwch ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mrs Mrs Morina Davies, Llwynonn ar ddod yn fam-gu yn ddiweddar.

Ysgol Y Dderi

Llongyfarchiadau i William Holden, Ashely Squires a Rhiannon Newitt, am ennill gwobrau mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan gwmni Organics Llanbed. Y dasg oedd dylunio poster i hyrwyddo cinio Nadolig hollol organig.

Croeso cynnes i Heulwen Williams sydd wedi dod atom o Goleg Y Drindod. Mae Heulwen ar ei hail flwyddyn yn dilyn cwrs gradd BEd. Pob hwyl i ti.

Croesawyd rhieni plant blwyddyn 3 i'r ysgol er mwyn gwrando ar eu plant yn darllen storïau yn gyhoeddus. Ond nid storïau cyffredin oedd rhain, ond yn hytrach, gwaith personol y plant. Cafwyd bore bendigedig gyda phawb wrth eu boddau yn cael cymryd y llwyfan i ddarllen eu gwaith. Rhannwyd paned a bisgedi arbennig a baratowyd gan y plant.

CFfI Bro'r Dderi

Hedydd Davies yn derbyn tlws Aelod Mwyaf Gweithgar Clwb Ffermwyr Ieuaninc Bro'r Dderi 2008, oddi wrth gadeirydd y clwb, Gethin Jones, Hendrephilip. Cyn-aelod o'r clwb, sef Lowri Jones, fu'n gyfrifol am gynllunio a chreu'r tlws a gyflwynwyd am y tro cyntaf eleni.

Treuliodd Miss Bethan Mai, Miss Bethan John, Ceri Davies, Tierney Lloyd a Ffion Quan wythnos yn Norwy yn rhan o'n prosiect rhyngwladol. Bu'r athrawon yn treulio amser mewn dosbarthiadau amrywiol yn dysgu ychydig o hanes a thraddodiadau Cymreig i'n ffrindiau Norwyeg, tra bod y merched yn mynychu gwersi gyda'i ffrindiau newydd. Cafwyd amser bendigedig a digonedd o eira! Dysgwyd sut i sgïo traws gwlad ynghyd â chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn yr eira. Diolch i Torhild a'n ffrindiau yn Gjerstad am eu croeso twym galon fel arfer.

Llongyfarchiadau i Aled Edgell, disgybl ym mlwyddyn 6, sydd wedi ennill medal arian mewn cystadleuaeth ffensio a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Daeth Aled yn ail yn adran y plant o dan 12 oed. Da iawn ti Aled.



Llanbedr Pont Steffan

Darlith

Traddodir darlith gan Dr Angharad Price ar y testun 'Monica mewn Cyffion' am 5 o'r gloch ddydd Mercher, 11 Mawrth 2009, yn Narlithfa Tucker, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan. Mynediad am ddim a chroeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Daeth newyddion trist am farwolaeth Mrs Bet Jones, Blaenwern, Heol Maestir yn ystod y mis. Cydymdeimlir yn ddwys â'i phriod Douglas, y plant Rhys a Mary a gyda'r cysylltiadau teuluol i gyd yn eu colled.

Cylch Cinio

Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod y Cylch ar 5 Chwefror oherwydd yr eira a'r rhew ond llwyddwyd i drefnu cyfarfod arall yn ei le ar gyfer nos Iau 2 Ebrill. Mae'r trefniadau ar gyfer noson y gwragedd ar nos Iau 5 Mawrth gyda'r awdures Caryl Lewis yn wraig wadd yn mynd ymlaen.

Noddfa

Mae Beryl Davies o Landdewi Brefi, sydd yn aelod yn Noddfa, wedi cael llwyddiant mawr ar hyd y blynyddoedd yn cyfansoddi geiriau i emyn donau. Gan fod Sul y Mamau yn agosáu, dyma berl o'i gwaith a geiriau hyfryd i'w canu ar y Sul arbennig hwn yn ein gwasanaethau. Dymunir yn dda i Beryl eto yn y maes eisteddfodol. Daliwch ati i gyfansoddi.

Sul y Mamau (Tôn: Stuttgart)

Diolch Arglwydd am y cariad
Blennaist Ti mewn calon mam.
Mawr ei gofal drwy yr amser
Rhag i'w phlentyn hi gael cam.

Diolch Arglwydd am i'w chariad
Ddysgu llawer iawn i ni.
Ffordd i fod yn llai hunanol,
Ac yn dirion iawn fel hi.

Diolch Arglwydd am ddylanwad
Llawer mam ar lawer un.
Rhai a ddaeth yn arweinyddion
Yma Nghymru fach ei hun.

Diolch Arglwydd am Dy Gariad;
Cariad mwy na chariad mam.
Mawr yw d'ofal dithau drosom.
Ti a'n ceidw ni rhag cam.

Dalier sylw

Trefnir Cymanfa Ganu dan arweiniad Rhiannon Lewis yn Noddfa nos Sul 28 Mehefin i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010, ac achos teilwng arall. Manylion pellach i ddod.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Aelwyd yr Urdd

Oherwydd nifer o amgylchiadau, criw bach a oedd yn bresennol yng nghyfarfod agoriadol Aelwyd yr Urdd yn Ysgol Ffynnonbedr. Ond er hynny cafwyd noson hwyliog a difyr iawn yn cymryd rhan mewn gêmau amrywiol yng ngofal Geinor Medi a Janet. Hefyd treuliwyd amser yn paratoi rhaglen ar gyfer y misoedd nesaf ac mae gweithgareddau amrywiol wedi eu trefnu yn cynnwys Blasu Pancws, Eisteddfod Ddwl, Ymweld â'r Ganolfan Hamdden a Helfa Drysor. Bydd nifer helaeth o'r aelodau hefyd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a gynhelir yn yr Ysgol Gyfun ddydd Gwener 13 Mawrth am 1.30 o'r gloch. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 10fed Mawrth, sef Eisteddfod Ddwl, un o uchafbwyntiau'r flwyddyn. Mae'r Aelwyd yn ddyledus iawn i aelodau Clwb Rotari Llambed am rodd hael eleni eto yn rhan o'u cefnogaeth i grwpiau ieuenctid lleol. Diolch o galon am eu caredigrwydd - gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn.

Shiloh- Y Gymdeithas Ddiwylliadol

Roedd Festri Shiloh yn gyfforddus iawn brynhawn Iau Chwefror 19 wrth i'r llywydd Margaret Jones groesawu yn gynnes y siaradwraig wadd, Dinah Jones. Merch o fferm Caerfell, Cribyn yw Dinah yn wreiddiol cyn i'r teulu symud i Culmore, Pentrebach. Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Uwchradd Llambed cyn iddi gael ei derbyn i astudio Saesneg yng Ngholeg Sommerville yn Rhydychen, yr un Coleg o ran diddordeb â'n cyn brif weinidog, Margaret Thatcher. Mae Dinah wedi dal swydd gyfrifol gyda BBC Cymru fel uwch gynhyrchydd rhaglenni ac mi gafwyd syniad clir o bwysigrwydd ei swydd wrth iddi gyflwyno nifer o raglenni ar y sgrin fach ar sail ei gwaith dros y blynyddoedd. Un o'r rhaglenni mwyaf teimladwy ac emosiynol oedd hanes rhyfeddol teulu'r Morisiaid o Lanrhaeadr-ym-Mochnant. Penderfynodd y tad a'r fam ymfudo i Ganada i ffermio yn dilyn y dirwasgiad mewn prisiau anifeiliaid yn y naw degau. Oherwydd galwadau addysg, rhaid oedd gadael y ddwy ferch hynaf adref gyda'i mam-gu yn gofalu amdanynt. Penderfyniad anodd a dweud y lleiaf. Gwelwyd hefyd ar y sgrin fach raglen a gynhyrchwyd gan Dinah am fywyd, dylanwad a gwaith Gwynfor Evans. Diddorol hefyd oedd rhannu profiadau'r Pwyliaid wrth iddynt ymgartrefu yng Nghymru a chael cyfweliad gyda'r amryddawn Wish Gdula sydd bellach wedi byw yn ein plith ers blynyddoedd ac wedi meistroli'r Gymraeg. Rhaglen radio a gafwyd gan yr awdur Byron Rogers wrth iddo sôn yn ei gyfweliad am y newid byd wrth symud o Bancyfelin i Gaerfyrddin – taith o ryw chwe milltir ond lle roedd yr iaith a'r diwylliant yn gwbl wahanol. Roedd yn amlwg i bawb bod ôl ymchwil trwyadl ar y rhaglenni yma a bod Dinah yn feistr ar ei gwaith. Gwenda Richards a gafodd y fraint o ddiolch i'r siaradwraig am orig hynod ddiddorol ac addysgiadol. Estynnodd groeso cynnes i Dinah a'i theulu yn ôl i Lambed ar ôl byw yn y brif ddinas yng Nghaerdydd am flynyddoedd. Cyfarfod olaf y Gymdeithas am eleni fydd ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol ddydd Iau, Mawrth 5. Enwau os gwelwch yn dda i naill ai Margaret neu Owen Jones.

Adran yr Urdd

Roedd yr wythnos cyn hanner tymor yn un brysur iawn i aelodau'r adran. Yn gyntaf, coginio oedd ar yr agenda. Diolch i Mrs D. Williams am roi cyfle i'r aelodau gynllunio ac addurno cacennau bach a dynion bach sinsir. Blasus iawn! Yna aeth dau dîm i gystadlu yn y Cwis Adran a drefnwyd gan yr Urdd yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron y nos Iau ganlynol. Enillodd un o'r timau'r gystadleuaeth ac fe dderbyniodd Louie Andreas, James Edwards, Rhys Jones, Osian Morgan a Gareth Wyn fedalau i gofnodi eu buddugoliaeth. Ond roedd aelodau'r tîm arall, sef Stephanie Davies, Caryl Griffiths, Meirion Thomas, Jessica Davies a Gavin Evans wedi gweithio'n galed iawn hefyd er mwyn ennill eu swper o selsig a sglodion! Diolch i Mrs E Griffiths am helpu gyda'r drafnidiaeth.

Nos Lun, Chwefror 23, cafodd yr aelodau brofiad newydd wrth gymryd rhan mewn cwis a drefnwyd gan Mr H Roderick er mwyn rhoi prawf ar eu gwybodaeth gyffredinol. Cyflwynwyd yr atebion gan ddefnyddio'r rhaglen 'Activote', sy'n debyg i dechneg 'gofyn i'r gynulleidfa' yn Who Wants to be a Millionaire ac roedd pawb yn cystadlu'n frwd. Gyda llaw, ydych chi'n gwybod faint o siroedd sydd yng Nghymru?

Bydd y cyfarfod nesaf yn cynnig cyfle i'r holl aelodau ymarfer dawnsio neu ganu ar gyfer y gystadleuaeth 'Ffactor X'.

Mae llwyddiant yr Adran yn dibynnu ar aelodau'r gymdeithas sy'n cefnogi trwy roi o'u hamser a'u harbenigedd. Diolch yn fawr ar ran yr aelodau oll.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Nos Fercher y 18 o Chwefror cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Yr enillwyr – Dynion 1af Mrs Peggy Davies, Felinfach, Cydradd 2ail Mrs Dilwen Roderick, Llambed a Mrs Gwendoline Davies, Llanwnnen. Merched 1af Mrs Gwenda Davies, Felinfach, 2ail Mrs Ray Thomas, Stryd Newydd, Llambed, 3ydd Mrs Cathrina Davies, Aberaeron. Sgôr Isaf – Dynion – Mr Edward Lockyer, Hafan Deg; Merched Mrs Mary Evans, Llanwnnen. Bwrw Allan – Enillwyr – Mrs Peggy Davies a Miss Joan James, Llambed. Ail – Mrs Sarah Humphreys Jones, Alltyblaca a Mrs Mary Davies, Cwmsychpant.

Bydd yr Yrfa Chwist nesaf nos Fercher 18fed o Fis Mawrth 2009. Croeso cynnes i bawb.

Pen-blwydd hapus

Llongyfarchiadau i Nesta Harries ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ystod y mis.

Ysgol Ffynnonbedr

Bu Gareth Jones yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth sirol coginio'r Urdd. Paratowyd myffins ffrwythau ganddo ac fe wnaeth yn arbennig o dda. Dal ati i goginio Gareth.

Cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yng nghylch Llambed a daeth tîm yr ysgol yn ail agos. Da iawn chi Kaleisha Standen, Sara Evans, Leanne James, Hannah James, Kirsty Owens, Caitlin Page, Danielle Gillings, Rhiannon Davies a Mrs E Jones am eich hyfforddi.

Cyflwynwyd siec am £571.50 at gronfa Apêl Eisteddfod yr Urdd 2010 sef rhan o'r elw a gasglwyd yn dilyn Cyngerdd Nadolig yr ysgol ynghyd â gweithgareddau eraill. Hyfryd hefyd oedd cael cyflwyniad ar ffurf llun a gair gan gynrychiolwyr Operation Xmas Child. Dangoswyd i'r plant i ble'r oedd y bocsys a baratowyd ganddynt adeg y Nadolig wedi mynd ac roedd yn agoriad llygad ac yn drist i weld amgylchiadau byw truenus rhai o blant y trydydd byd. Gobeithio y bydd hyn yn annog mwy o blant i baratoi bocsys i helpu'r trueiniaid y flwyddyn nesaf.

Cwblhaodd grŵp arall o rieni gwrs o wersi Cymraeg yn ystod y deg wythnos a aeth heibio. Dalwch ati i siarad Cymraeg a diolch i Llinor am eu hyfforddi.

Bu cwmni drama Arad Goch yn perfformio a chynnal gweithdai yn yr ysgol i flynyddoedd 1 a 2 a chafwyd llawer o hwyl a sbri.

Aeth pob athro yn yr ysgol i gyfarfod i ddangos a thrafod y gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen wrth ddatblygu sgiliau meddwl disgyblion yr ysgol. Anogir y plant i fynegi barn ar waith ei gilydd ac ar eu gwaith eu hunain, i osod targedau a nodi sut y maent yn dysgu a beth sydd yn eu helpu wrth ddysgu.

Llanbedr Pont Steffan

Hyfryd oedd cael croesawu Prifathro ac aelodau o Staff yr Ysgol Uwchradd i siarad â disgyblion a rhieni blwyddyn 6 sydd ar drothwy'r sector uwchradd.

Daeth llwyddiant i ran y timau gymnasteg yn sirol a chenedlaethol dan hyfforddiant Mr Islwyn Rees. Enillwyd dwy ail wobr yn y gystadleuaeth triawd a'r tîm yng Ngheredigion. Aelodau'r triawd oedd Caitlin Page, Catrin Davies a Charlotte Saunders a'r tîm oedd Caitlin a Grace Page, Charlotte Saunders, Jessie Dalton, Jessica Davies, Harriet Roper, Annie Marshall, Chloe Clarke, Catrin Davies a Red Gale.

Bu aelod o dîm Estyn yn arolygu'r ysgol yn rhan o arolwg effaith derbyn plant o ddwyrain Ewrop ar ein hysgolion a sut rydym yn ymdopi â hynny. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'n hymdrechion.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd cynulliad da i'r Hen Neuadd gan SelwynWalters, y Cadeirydd, i gyfarfod mis Chwefror y Gymdeithas. Siaradwr gwadd y noson oedd Roger Clive-Powell, Pontbrendu, Llanybydder, ac fe'i cyflwynwyd fel disgynnydd i hen deulu David Jones, Llanymddyfri (Banc yr Eidon Du), ac i deulu'r Dolau, Llanwenog.

Yn bensaer wth ei alwedigaeth, testun ei araith oedd "Cadwraeth adeiladau yng Ngorllewin Cymru". Pan yn fyfyriwr, roedd â'i fryd ar gynlluniau modern, ond wedi dod i ardal Llanwenog er mwyn adfer hen dŷ a oedd yn perthyn i'r teulu, a gweld hen adeiladau eraill wedi mynd yn furddun, trodd ei sylw at gadwraeth.

Trwy gyfrwng lluniau, gwelwyd esiamplau o dai a 'mieri lle bu mawredd' – megis Plas y Bronwydd; Llanfechan, Llanwenog; Pantglas, Llanfynydd, a Neuadd fawr, Cilycwm, i enwi rhai.

Canolbwynt araith Roger Clive-Powell oedd y gwaith atgyweirio a wnaed ar Eglwys Llanwenog, a hynny dros nifer o flynyddoedd. Roedd angen rhoi sylw i'r craciau ar ddwy ochr y tŵr, gwneud gwaith sylweddol ar hen drawstiau canoloesol y to ac ar gorff yr Eglwys. Gweithwyr lleol fu'n gyfrifol am lawer iawn o'r gwaith yma, ond bu'n rhaid galw ar wasanaeth arbenigwyr o bell ar gyfer rhai agweddau o'r gwaith, megis ail beintio'r ysgrifen ar y muriau.

Prosiect arall o ddiddordeb oedd y gwaith o lanhau Eglwys Pontargothi; y waliau wedi troi'n ddu oherwydd effaith gwresogydd diffygiol. Ond ryfeddod oedd gweld gogoniant yr Eglwys wedi'r atgyweirio.

Yr un oedd adwaith y gwrandawyr wrth weld y gwaith a gwblhawyd ar Dŷ'r Meudwy yng Nghilwendeg, yr addurn i gyd o gregyn o bob math a'r cyfanwaith yn syfrdanol. Cred Roger Clive-Powell yn angerddol ei bod yn bwysig achub yr hen adeiladau a'r creiriau yma cyn ei bod yn rhy hwyr.

Wrth ddiolch i'r siaradwr, dymunodd Selwyn Walters yn dda i Roger a'i briod Jen ar eu cywaith wrth droi Neuadd y Dre, Llambed yn ganolfan gwiltiau, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld y lle yn agor ar ei newydd wedd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mawrth 17eg, 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd Caradog Jones yn rhoi hanes ei waith yn dilyn afonydd Teifi a Chothi. Croeso cynnes i bawb.

Gornest y Cewri

Ar Nos Fercher y 18fed o Fawrth am 7.30 o'r gloch mae digwyddiad go anarferol yn Neuadd Prifysgol Llanbed. Yno ar y noson benodol mae gwrthdrawiad rhwng rhai o sêr y byd Reslo Americanaidd

Er bod rhai o enwau cyfarwydd cyn sêr y World Wresling Entertainment ar y rhaglen, Cymro Cymraeg o Borthmadog yw'r prif atyniad.

Mae Barri Griffiths yn GAWR yng ngwir ystyr y gair. Mae'n chwe troedfedd a saith modfedd o daldra, ac yn pwyso dros ugain stôn gyda chorff fel pe bai wedi ei naddu allan o graig.

Heb unrhyw os Barri yw'r 'Cymro Cryfa' heddiw. Ffaith a lwyddodd iddo gael ei le fel un o'r 'Gladiators' ar raglen Sky TV. Ei enw ar y rhaglen yw Goliath.

Yn Llanbed mae gornestau ffyrnig o'i flaen cyn y gall gerdded allan o'r cylch gyda'r Ddraig Goch yn chwifio wrth ei ben - "Dewch i'r frwydr".

Merched y Wawr

Croesawyd yr aelodau i gyd gan Janet, ein llywydd, a chroeso arbennig i Beryl Davies yn ôl i'n plith. Canwyd cân y mudiad gyda Elma Phillips yn cyfeilio. Addawodd Ann Lewis ac Eryl Jones ymweld â Hafandeg y mis yma. Dywedodd Janet ei bod wedi anfon dau gwestiwn ac ateb i'r cwis "Adnabod Bro" fel y gofynnwyd. Atgoffwyd y canlynol eu bod wedi addo cymryd rhan yn y nosweithiau chwaraeon: DOMINOS- Pat ac Eryl; CHWIST- Ray, Joan, Margaret Roberts a Morfudd; DARTIAU – Gwyneth, Dilwen a Dolly. Casglwyd enwau ar gyfer cinio'r Llywydd Cenedlaethol ym Manor Parc, Clydach ar y 4ydd o Ebrill. Y gwesteion fydd Nia Roberts, Einir Dafydd a Dafydd Jones. Bydd cinio blynyddol y gangen yng Ngholeg Llambed y mis nesaf. Arian i'w adael mewn amlen gyda eich enw yn swyddfa Eryl ymlaen llaw. Ein siaradwr gwadd am y noson oedd y Bon. Julian Evans, perchennog Ling di Long. Cafwyd ganddo hanes ei daith arbennig i Tsieina. Roedd yno ar wahoddiad Maer tref fawr o'r enw Quiadao sydd ar lan y môr yn nwyrain y wlad. Roedd ganddo gysylltiad â'r Maer drwy fyfyriwr sydd yn astudio yng Ngholeg Llambed ac sydd hefyd yn gweithio yn Ling di Long. Derbyniodd groeso tywysogaidd gan bawb a gyfarfu. Roedd yno i roi gwybodaeth am faterion gwyrdd. Dywedodd ei fod yn cael ei drin fel dyn pwysig iawn ac yn cael ei yrru mewn Mercedes gan chauffeur o amgylch y wlad a'r cyfan am ddim. Roedd wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn, yn enwedig y gwledda diddiwedd. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol dros ben gan Aerwen Griffiths. Diolch hefyd i Hazel, Margaret a Joan am baratoi'r te. Enillwyd y raffl fisol gan Morfudd Slaymaker. Penderfynwyd galw pwyllgor ar Chwefror 15ed.

Morfydd Slaymaker, Janet Evans, Julian Evans a Dilwen Roderick yng nghyfarfod Merched y Wawr

Glynne Jones, (chwith) cyn ymddiriedolwr, Cangen De Orllewin Cymru y Gymdeithas Motor Niwron yn derbyn siec am £1,300 gan John McDonagh, Trysorydd a Wim Ruysch, Cadeirydd Bwrdd Crwn Llanbed. Codwyd yr arian adeg taith feiciau noddedig o Lanbed i Langrannog a thaith gerdded o Langrannog i Aberaeron ynghyd â Noson Arwerthiant. Cyflwynwyd y siec mewn cinio yng Ngwesty Glyn Hebog.

Clwb Rotari

Y mae Melvin Davies (Llywydd) yn diolch ar ran Clwb Rotari Llanbed i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth hael dros y misoedd diwethaf wnaeth ein cynorthwyo i godi arian tuag at achosion da. Codwyd dros £500 yn rhan o Daith Gerdded Noddedig, dros £700 yn sgil y Wibdaith Troli yn y Co-op Llanbed, a dros £850 yn ystod ymweliadau 'cynnar' Sion Corn! Bydd hyn yn ein galluogi i gyfrannu tuag at achosion da yn lleol ac yn genedlaethol, tebyg i'r £1,000 a gyflwynwyd yn ddiweddar i 'Action Medical Research' gan ein cyn Lywydd, y Parchedig Bill Fillery. Cyflwynodd y siec i Richard Price, Cadeirydd Ymddiriedolwyr 'Action Medical Research - Touching Tiny Lives'. Bydd yn cynorthwyo'r elusen i ariannu gwaith ymchwil hanfodol mewn meysydd megis y cymhlethdodau all godi yn ystod cyfnod beichiogi, ac i wella'r gofal ar gyfer babanod sy'n cael eu geni yn gynt na'r disgwyl ac i leihau nifer y babanod sy'n marw ar enedigaeth yng Ngwledydd Prydain. Cyfrannodd gweithgareddau'r cinio a'r ddawns ym Mhrifysgol Llanbed a'r diwrnod golff a gynhaliwyd y llynedd tuag at gasglu'r swm anrhydeddus hwn, gan ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cyngor a chymorth i bobl hŷn

Ers blwyddyn bellach rydw i wedi bod yn gweithio gyda Gofal a Thrwsio Ceredigion. Fel asiantaeth rydym yn cynnig cyngor a chymorth am ddim i bobl hŷn yng Ngheredigion er mwyn eu galluogi i aros yn eu cartrefi'n ddiogel a chysurus.

Felly os ydych chi'n byw yng Ngheredigion, yn berchen ar eich tŷ, neu'n rhentu gan landlord preifat, ac os ydych dros 60 oed, (neu'n adnabod rhywun yn y categori hynny) - darllenwch ymlaen.

Does dim rhaid i chi symud o'ch cadair! Rydym yn ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain. Ar yr ymweliad cyntaf gallwn drafod:-

Unrhyw anawsterau cyffredinol

- a oes gan eich cartref unrhyw ddiffygion – to yn gollwng neu ddrysau/ ffenestri wedi pydru?
- a ydych chi'n cael anhawster i ddefnyddio'r bath/cawod neu ddringo'r staer?
- a fyddech yn teimlo'n fwy diogel drwy wisgo botwm argyfwng ar eich gwddf?
- a yw eich teledu yn barod am y newid digidol?

Gwresogi

- a yw eich cartref yn ddigon cynnes?
- a yw eich system wresogi'n effeithiol?

Insiwleiddio

- a ydy'ch atig wedi'i insiwleiddio'n ddigonol?
- a ydych chi'n gwybod beth yw digonol?

Budd-daliadau

- a ydych chi'n deilwng am Gredyd Pensiwn neu ostyngiad yn Nhreth y Cyngor?
- a oes gennych unrhyw salwch/anabledd a allai eich gwneud yn gymwys am Lwfans Gweini (Attendance Allowance)?
- a oes rhywun yn deilwng i dderbyn Lwfans Gofalwr am ofalu amdanoch?

Mrs Ceri Davies sydd wedi elwa o'r gwasanaeth gyda'r Cynghorydd Hag Harries ac Anthea Jones

Diogelwch Cartref

- a oes gennych larymau mwg sy'n gweithio ar bob lefel o'ch cartref – y llofft a'r llawr?
- a yw eich staer yn glir o unrhyw geriach?
- a yw eich carpedi a'ch rygiau wedi'u ffitio'n ddiogel?
- a oes digon o ganllawiau gennych i gydio ynddynt – ar ochr y staer neu ger stepiau'r drws ffrynt a'r drws cefn?

Os ydych chi eisiau ateb i unrhyw un o'r uchod, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn perthnasol arall, gallwn ni eich helpu!

Gallwn eich cynghori a'ch cynorthwyo i:-

- Drefnu unrhyw addasiadau a gwaith trwsio. Mae ein Swyddog Technegol yn gallu paratoi Rhestr Waith, trefnu amcangyfrifon, paratoi cytundeb rhyngoch chi a'r contractwr, delio â chontractwyr, ac yn bwysig iawn, checio'r gwaith ar ôl iddo gael ei orffen.
- Os nad oes digon o arian gennych i dalu am unrhyw waith, gallwn eich cynghori sut i gyllido addasiadau a gwaith trwsio. Gallwn asesu a ydych yn gymwys am grantiau oddi wrth y cyngor, oddi wrth fudiadau megis Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni, neu gronfeydd lles eraill.
- Gallwn asesu a ddylech fod yn derbyn unrhyw fudd-daliadau yn seiliedig ar eich incwm neu yn seiliedig ar eich iechyd. Os yw eich incwm yn isel, gallech fod yn deilwng am Gredyd Pensiwn, ac hyd yn oed os oes gennych ychydig o gynilion, gallech fod yn deilwng am Gredyd Cynilion.
- Fel asiantaeth rydym mewn cyswllt agos â mudiadau eraill yng Ngheredigion, felly os na allwn ni eich helpu, gyda'ch caniatad chi gallwn eich cyfeirio at eraill. Os yw gwneud y pethau bob dydd rydym oll yn eu cymryd yn ganiataol yn mynd yn anoddach, efallai bod angen i chi gael eich asesu gan Therapydd Galwedigaethol. Os ydych yn methu â defnyddio'r bws, efallai eich bod yn deilwng am dalebau tacsi.
- Gallwn drefnu ail ymweliad i wneud asesiad Diogelwch Cartref i edrych ar beryglon posibl y tu fewn a thu allan eich cartref. Gallwn drafod opsiynau diogelwch megis gosod canllawiau, larymau mwg a chadwynau diogelwch ar ddrysau a chytuno gwaith neu fesurau eraill. Gallwn drefnu i'r crefftwr alw i wneud gwaith diogelu angenrheidiol dan y Cynllun Diogelwch Cartref.

Os am ymweliad gan Gofal a Thrwsio Ceredigion yn rhad ac am ddim, neu os hoffech chi drefnu cyflwyniad am y gwasanaeth ar gyfer mudiad yr ydych yn perthyn iddo yn rhad ac am ddim, ffoniwch 01970 639920.

Rydym hefyd yn ymhyfrydu yn y ffaith ein bod yn darparu gwasanaeth cyfan gwbl ddwyieithog.

ANTHEA C JONES Swyddog Achos

Llanwnnen

Ysgol Llanwnnen

Croesawyd Rhydian Jenkins, o'r Urdd atom i'r adran ar nos Lun, Chwefror 2il i gynnal noson o Garioci a gwneud bathodynnau. Rwy'n siŵr y bydd gennym y 'Rhydian' nesaf. Nos Lun, Chwefror 23ain buom yn gwneud pancws gan ei bod hi'n ddiwrnod Crempog trannoeth!! Roedd rhain yn flasus iawn.

Mae un o'n rhieni sef Stephen Cooper wedi bodloni dod i fewn i'r ysgol i gynnal Clwb Cyfrifiaduron gyda'r adran Iau. Maent yn cynllunio gwefan i'r ysgol. Fe gewch fwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Diolch hefyd i Miss Linda sydd yn cynnal Clwb Coginio gyda'r plant am yn ail wythnos.

Ffarweliwyd â'r myfyriwr, sef Marc Skone ar ôl iddo dreulio 6 wythnos yn ein plith. Dymuniadau gorau iddo yn Ysgol Gynradd Llandysul am yr hanner tymor nesaf.

Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol fore dydd Gwener, Chwefror 27ain. Braf oedd gweld nifer o rieni a ffrindiau'r ysgol wedi troi mewn. Miss Ruth Davies oedd ein beirniad am eleni. Ar ddiwedd y bore Tŷ Grannell oedd yn fuddugol. Capteiniaid Grannell oedd Ffion Jenkins, Cerian Jenkins a Hanuman Duxfield.

Rydym yn brysur iawn nawr yn paratoi ar gyfer noson y Cawl â Chân ac hefyd at Eisteddfod Gylch yr Urdd a fydd yn cael ei chynnal yn Ysgol Gyfun Llambed ddydd Mercher, Mawrth 11eg. Pob lwc i chi gyd sydd yn cystadlu.

Penblwyddi arbennig

Dathlodd sawl un o bobl y pentref eu penblwyddi yn ystod y mis, sef Dai Thomas, Dolcoed yn 65oed, Annette Thomas, Bro Grannell yn 60 oed ac Yvonne Davies, Glas y Dorlan yn 40 oed. Iechyd da i chi gyd i'r dyfodol.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Dylan a Natalia Roach, Bro Llan ar enedigaeth mab bach, brawd i Emily ac ŵyr newydd i Ceinwen a Roy Roach, 5 Bro Llan.

Capel y Groes

Ddydd Sul 15 Chwefror cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol gofalaeth y Chwe Chapel. Cafwyd canu cynulleidfaol o dan arweiniad Gwyneth Davies, Llanybydder ac yn cyfeilio roedd Ceinwen Roach, Llanwnnen.

Yn ystod y gwasanaeth, ac fel rhan o ddathliadau cyffredinol yr Undodiaid, rhoddodd y Parch Cen Llwyd grynodeb o fywyd a chyfraniad y naturiaethwr byd enwog, Charles Darwin a anwyd dau gan mlynedd yn ôl ar 12 Chwefror 1809. Cyfeiriwyd at ei gysylltiadau gyda'r Undodiaid a'r modd y cafodd ei syniadau am esblygiad eu croesawu gan yr enwad.

Yn dilyn hynny cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr ofalaeth o dan gadeiryddiaeth Dylan Iorwerth. Cafwyd cyfle i daflu golwg yn ôl dros weithgareddau'r flwyddyn. Dymuniad Dylan oedd cael ei ryddhau o'r gadeiryddiaeth a diolchwyd iddo am ei weithgarwch a'i weledigaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf a hynny wedi arwain at sicrhau gweinidogaeth gyfredol y Chwe Chapel. Etholwyd Dylan Wyn yn gadeirydd a chytunodd Siriol Thomas barhau yn Ysgrifennydd.

Yn ystod y cyfarfod derbyniwyd Rheolau Sefydlog y Pwyllgor Rheoli a Datblygu ar gyfer Gofalaeth y Chwe Chapel. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Yn ogystal, dosbarthwyd holiadur i'r aelodau i gael eu barn am y weinidogaeth a'r ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Mae croeso i unrhyw un sydd heb dderbyn copi o'r holiadur gysylltu gyda swyddogion y Chwe Chapel neu'r Gweinidog i gael copi.

Cynhaliwyd y cymun i ddiweddu'r gweithgareddau.

Gwellhad Buan

Yn ystod y mis tra yn ysbyty Glangwili cafodd Mrs Eva Davies, Ornant anlwc a rhaid oedd iddi dderbyn llawdriniaeth. Gobeithio, Eva, y byddwch lawer yn well erbyn hyn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Geraint Bowen, Delyn Aur, Llanwnnen ar lwyddo yn ei arholiad olaf i ddod yn aelod o Gymdeithas Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA). Da iawn ti a phob lwc i'r dyfodol fel cyfrifydd gyda Carillion Enterprise yng Nghaerdydd.

Barddoni

Llongyfarchiadau i Luned Mair ar ennill y Gadair a'r Goron yn Eisteddfod Ysgol Llambed eleni – go dda ti.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Dylan a Natalie Roach, Bro Llan, ar enedigaeth Jac; brawd bach i Emily.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Luned Jenkins a'r teulu, fferm Hendryd, yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl.

Clwb 100 Clwb Ieuenctid

Enillwyr mis Ionawr: 1af Catherine Cooper, 2il Eirwyn Thomas, 3ydd Siriol Evans, 4ydd Nerys Evans.

Chwaraeon

Bydd aelodau o'r pentref yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth chwaraeon rhyng – bentrefol ar nos Wener 13eg o Fawrth.

Cwmann

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys â theulu Felindre, Cwmann yn dilyn marwolaeth Sally Jones yn ddiweddar. Teimlir y golled yn fawr gan y bu'n gefnogol iawn i bopeth yn y pentref ar hyd ei hoes.

Clwb 225

Enillwyr Mis Chwefror: 1 - Alan Morgan, Rhydowen, Parcyrhos, Cwmann, 2 - Ann Douch, Maestroyddyn Fawr, Pumpsaint, 3 - Ann Roberts, Brynview, Parcyrhos, Cwmann, 4 - Eluned Evans, 16 Treherbet, Cwmann, 5 - Joanna Morgan, Llys Penparc, Cae Ram, Cwmann, 6 - Eirwy Wiliams, Cilgell Uchaf, Parcyrhos, Cwmann, 7 - Eifion Davies, Rhoswelir, Parcyrhos, Cwmann, 8 - Sian Evans, Waun, Llanybydder, 9 - Gareth Jones, 10 - John James, Cae Ram, Cwmann.

Clwb 170 Enillwyr Mis Chwefror 1 - Mrs.Warmington, Falklands, Heol y Bryn, Llambed, 2 - Mrs. Harrison, Tŷ-Hir, Heol Llanfair, Llambed, 3 - Mrs. Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 4 - Mr. Williams, Bayliau, Llambed, 5 - Mr. Evans, Coed-y Waun, Parcyrhos, Cwmann, 6 - Mrs. Jones, Hollies, Llambed, 7 - Mrs. Davies, 13 Heol-Hathren, Cwmann, 8 - Mr. Mason, 4 Tre Herbet, Cwmann, 9 - Mrs. Jones, Tan-y-Bryn, Cwmann, 10 - Mr. Lodwick, Penryn, Cwmann.

Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchwn Mrs. Nellie Davies ar ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed. Gobeithio i chi fwynhau y diwrnod.

Baban Newydd

Croeso cynnes i Lois, merch fach Debbie a Nigel, 5 Treherbet, chwaer fach i Cai a Leon ac wyres i Jimmy a Brenda Lukes.

Eglwys Sant Iago

Ddydd Sadwrn 24ain Ionawr aeth aelodau eglwysi Cwmann, Pencarreg a Llanycrwys i fyny i'r Gadeirlan ym Mangor i wasanaeth gorseddu ein cyn ficer, Y Gwir Barchedig Andy John yn Esgob Bangor. Cawsom siwrne hwylus ar ddiwrnod heulog braf a chael cyfle i werthfawrogi'r golygfeydd bendigedig, cread Duw ar ei orau. Roedd cyfle ym Machynlleth i ymestyn coesau a chael cwpanaid o goffi, yna ymlaen i Fangor i'r gwasanaeth. Braf oedd cael bod yn rhan o'r gweithgareddau i gyd a gweld ein cyn ficer yn cael ei orseddu a'r gadeirlan yn orlawn. Cafodd groeso twymgalon iawn am amser hir wrth iddo guro ar ddrws y gadeirlan a cherdded i fewn a pawb ar eu traed i'w groesawu. Roeddem i gyd fel cyn aelodau yn ymfalchïo yn ei ddyrchafiad i'w swydd newydd. Roedd y gwasanaeth yn fendithiol iawn ac hyfryd oedd gweld Bethany John, merch yr Esgob newydd yn darllen y llith yn Gymraeg. Ar ôl y gwasanaeth roedd gwledd wedi ei pharatoi i bawb. A bu cymdeithasu hyfryd a chyfle i longyfarch a dymuno pob bendith i'r Esgob a'i deulu yn eu cartref newydd. Roedd y diwrnod yn gofiadwy iawn a saif yn y cof am amser. Diolch i'r wardeniaid am drefnu'r daith.

Gwellhad

Da deall bod Meirianwen Jones Williams, Cysgod y Pîn, Cwmann ar wellhad yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd yn ddiweddar.

Cerddorol

Llongyfarchiadau i Eurion Jones Williams, Cysgod y Pîn, Cwmann ar gael ei ddewis yn aelod o Fand Chwyth y Tair Sir ar y Trombôn. Erbyn hyn, mae Eurion yn aelod o dair Ensemble y Tair Sir – sef y Côr, y Gerddorfa a'r Band Chwyth. Tipyn o gamp yn wir! Da iawn, ti a dal ati gyda'r gwaith da.

Sefydliad y Merched

Gan ei bod yn noson oer, aeafol ar nos Lun 5ed o Ionawr, penderfynwyd peidio â mentro allan at Kate yn Wigs & Co ond gohirio'r ymweliad tan fis Chwefror. Ond fel y gŵyr pawb, mae'r tywydd yn feistr arnon ni i gyd a bu'n rhaid gohirio'r ymweliad unwaith eto wrth i'r eira ddisgyn ar nos Lun yr ail o Chwefror. Ond braf dweud ein bod wedi llwyddo i gael noson yng nghwmni Kate ar nos Iau y 12fed. Cawsom groeso braf gan Kate yn Sarn Helen a bu'n trafod a dangos yr holl fathau o wallt gosod sydd ar gael, a chafwyd tipyn o hwyl wrth i sawl aelod gael makeover. Mae hefyd yn gwerthu gemwaith, hetiau, sgarffiau, bagiau a dillad isaf. Mae Kate yn ddynes trin gwallt broffesiynol ac mae'n ddiwyd iawn yn ei gwaith ac yn barod i helpu a rhoi cyngor bob amser. Diolchodd Joyce i Kate am y croeso, a chafwyd cwpanaid o de gan Joyce a Lena cyn troi am adre. Enillwyd y raffl gan Dilys.

Clwb Cerdded Plwyf Pencarreg

Yn dilyn erthygl y clwb mis diwethaf, death i law esboniad ar enw hen ffermdy Braichesmwyth gan yr athro D A Thorne Llanllwni. Diolch iddo am ei garedigrwydd i'w gyhoeddi:

Enw diddorol yw Braichesmwyth ym mhlwyf Pencarreg. Crybwyllir yr enw gan D J Williams yn 'Hen Dy Ffarm': "Mab 'Fraich Esmwyth oedd fy nhadcu. Roedd y lle yn eiddo i'r teulu ac yno y buont yn byw ers cenedlaethau … mae'n debyg … mai ym Mhenpompren, Llanwnnen y ganed fy nhadcu … yr unig esboniad rhesymol am hyn yw i'm hen dadcu, Thomas Morgan, fyw am rai blynyddoedd ar ôl priodi yng nghartref ei wraig ym Mhenpompren, cyn symud yn ddiweddarach … yn ôl i'r hen nyth ym Mraich Esmwyth … yno y bu ef farw yn 1868 yn 83 oed".

Yng nghofnodion Taliadau Degwm Plwyf Pencarreg nodir mai maint Braichesmwyth pan oedd Thomas Morgan yn byw yno oedd ychydig dros 24 cyfer a bod 8 swllt yn daladwy i'r ficer ac at hynny roedd 16 swllt o daliadau eraill.

Mae 'braich' yn elfen gyffredin mewn enwau lleoedd ac mae iddo arwyddocâd tirweddol gan gyfeirio at esgair (o fynydd) neu bentir. Mae 'esmwyth' yn dynodi nad yw'r tir yn rhy arw.

Braichesmwyth a geir ar lethrau Mynydd Pencarreg ond Braichgarw a geir yn Nhrefeurig ac eto ger Tal-y-bont yng Ngheredigion. Enwau eraill sy'n cynnwys yr elfen yng Ngheredigion yw Braicheithinog a Braich-glas. Mae Braich yn digwydd yn foel yng Ngheredigion; fe'i ceir hefyd ger Abergwaun yn Sir Benfro. Yng Ngwynfe yn Sir Gaerfyrddin ceir Braich-y-waun.

Dyma flas ar rai enwau eraill sy'n cynnwys yr un elfen yng Ngogledd Cymru: Braichbedw (Llanuwchlyn); Braich-ddu (Trawsfynydd); Braich-gwyn (Tywyn); Braich-coch (Llanfaelog, Sir Fôn); Braichmelyn (Bethesda); Braichllawenydd (Mallwyd); Braichytarw (Pentrefoelas); Braich-yr-hwch (Tal-y-llyn); Braich-llyfn (Maentwrog).

Nes i gymryd rhan yn Hanner Marathon Caerdydd fis Hydref diwetha'. Casglais gyfanswm o £450, yna rhannu'r arian rhwng Uned Newydd-anedig Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd ac Adran Diabetes i blant Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin. Fe wnaeth nifer o bobl ardal Llanbed/Cwmann fy noddi, felly hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth.

Fy nai, Macsen Llwyd, sy'n cyflwyno siec i'r Uned Newydd-anedig lle fuodd yntau am 3 wythnos ar ôl cael ei eni.

Pob hwyl, Anwen James, Caerdydd

Rhifyn mis Ebrill
Yn y Siopau
Ebrill 2ail
Erthyglau i law erbyn
Mawrth 19eg
Newyddion i law erbyn
Mawrth 23ain

Cwmsychpant

Cydymdeimlad

Yn ystod y mis clywyd am farwolaeth un o drigolion y pentref sef Mrs Ceri Evans, Blaenhirbant Ganol. Nid oedd wedi mwynhau'r iechyd gorau ers nifer fawr o flynyddoedd ac wedi treulio blynyddoedd olaf ei hoes yng nghartref Plas y Dderwen ger Caerfyrddin. Cydymdeimlir â'i phriod, Wyn y meibion Alan, Andrew a'i wraig Eleri ynghyd â'r ŵyr, Gari ac hefyd â'i brawd Jackie a'r teulu yn Nhyngrug Ganol. Preifat fu'r angladd yng Nghapel y Cwm ac fe roddwyd ei gweddillion i orffwys yn y fynwent gerllaw.

Hefyd danfonwn ein cydymdeimlad at deulu Cathal ar golli modryb yn ystod y mis, sef Hannah Rowlands o Dalgarreg.

Hefyd, cydymdeimlwn â Eurwyn a Mary Davies, Maesnewydd a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith, mamgu a hen-famgu annwyl iawn, sef Mrs Sally Davies o Gribyn. Ymgartrefodd Mrs Davies ym Maesnewydd ers bron i dair mlynedd a diolch i'r teulu cyfan am eu gofal ohoni. Bu'r angladd yn breifat yn Eglwys Cribyn.

Panto C.Ff.I. Ceredigion

Yn y gystadleuaeth yn ystod y mis gwelwyd sawl un o'r ardal yn disgleirio ar lwyfan y Panto yn Theatr Felinfach. Llongyfarchiadau i aelodau C Ff I Pontsian ar eu llwyddiant a phob dymuniad da yn Ffeinal Cymru yn Rhuthun ddiwedd mis Mawrth.

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Llyr Thomas**
Oed: 29
Pentref: Cwmann a Chellan.
Gwaith: Swyddog Datblygu Chwaraeon mewn ysgolion.
Partner: Neb, ond yn chwilio!
Teulu: Rob (Dad), Rhodri (Brawd), Asbo (Ci), Bola (Crwban).

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chware *Power Rangers* gyda Kevin, Heulyn Capone a Huw Electrician.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Gweld Geraint Thomas yn bencho mwy na fi!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Bod yn gryf.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Bodybuilder.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Mynd â fi i weld y ffilm *Ghostbusters*.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gatre yng Nghwmann yn chwarae Xbox 360 gyda Kevin Thomas.

Beth yw dy lysenw?
Tommy Triceps.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Cymysgedd rhwng Terry Hulk Hogan a Andy Powell (Rhif 8 Cymru).

Pwy yw dy arwyr?
Marc Windows.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Fishers, Cellan.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Tywydd.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Bach o bling i Asbo a fi!

Beth sy'n codi ofn arnat?
Merched!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Gweithio allan.

Pryd lefaist ti ddiwethaf?
Pan gefais ddolur ar fy mhen-glin wrth chwarae rygbi

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
Gweud wrth Kevin mod i ddim yn mynd i fethu fe pan fydd e'n mynd i Birmingham i weithio.

Unrhyw ofergoelion?
Gorfod rhoi dwy droed lawr ar bob stepen wrth fynd lawr a lan y grisiau.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?
Gweithio allan ar y bench gatre.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Dawnsio pob nos Sadwrn.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Corsa bach glas.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Peidio treulio gormod o amser ar y gwely haul.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hwylus, Cyhyrog a Siaradus.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Don't mess with him!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Sushi.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Cylchgrawn WWE Raw pob mis.

Beth yw dy hoff arogl?
Dinky Donuts.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Gwylio WWE ar SKY Plus (ti'n gallu pwyllo teledu byw!).

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Gweud jôcs.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Trout & Salmon a Bebo.

Hoff gân ar dy ipod?
Daniel Bedingfield – *If you're not the one*.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
The Curious Case of Benjamin Berwyn Hughes Button.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Brokeback Mountain.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hunan?
Pen-glin.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Chest.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Gwylio Tim Evans a Gary Davies yn chwarae Rygbi.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Gwely dŵr gatre.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Bois Rygbi.

Arferion gwael?
Chwyrnu.

Unrhyw dalentau cudd?
Rhedeg 100m mewn llai na 12 eiliad.

Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?
Mae fy llygaid i ar gau bob tro mae rhywun yn tynnu fy llun!

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Wi'n dihuno am bedwar o'r gloch pob bore i gael protein shake, so wi'n paratoi un cyn mynd i'r gwely a wedyn 100 sit-ups.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Annwen Jones, Llanfair Clydogau

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	9		7	5			4	2
8								
3	5	7			9		6	
	3	8			2			
5	7			6			2	1
			8			5	9	
	4		6			9	3	7
								4
7	1			4	3		8	

Atebion Swdcw mis Rhagfyr:

6	7	4	2	1	3	8	9	5
5	1	2	9	7	8	6	4	3
8	9	3	4	5	6	7	2	1
4	2	1	3	8	9	5	6	7
7	6	8	5	4	2	1	3	9
9	3	5	7	6	1	2	8	4
1	4	6	8	9	7	3	5	2
3	5	7	6	2	4	9	1	8
2	8	9	1	3	5	4	7	6

Llongyfarchiadau i Hugh Evans, Coedparc, Llanynbydder a diolch i bawb arall am gystadlu: Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Graham Uridge, Coedparc, Llambed, Euronwy Doughty, Highlands, Llanybydder, Glenys, Davies, Gelli Aur, Llanybydder, Iona Warmington, Llandaf, Caerdydd, Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Eisteddfod yr Ysgol

Unwaith eto eleni, amlygwyd talentau disglair disgyblion Ysgol Gyfun Llanbed yn yr Eisteddfod flynyddol a gynhaliwyd ar y 10fed a'r 11eg o Chwefror.

Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thŷ sef Creuddyn, Dulas a Teifi. Y beirniaid eleni oedd Helen Evans (Cerdd), Mandi Morse (Llefaru a'r Gadair), gyda Menna Elfyn yn beirniadu cystadleuaeth y Goron.

Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y tair ohonynt at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynnyrch a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r Gadair.

Bwriodd nifer o feirdd ati eleni i ymgeisio am y Gadair ar y testun 'Ymwelydd'. Enillwyd y Gadair gan Luned Mair o dŷ Teifi am gerdd yn ymdrin ag afiechyd. Cipiodd Aled Wyn Thomas o Greuddyn yr ail safle a Hedydd Davies o Teifi y drydedd wobr.

Roedd y gadair yn rhoddedig gan John a Menna Williams, Rhosybedw, Ffaldybrenin, er cof am eu hwyres Siân Watkins.

'Doubt' oedd thema cystadleuaeth y Goron. Luned Mair o dŷ Teifi oedd yn fuddugol, tra dyfarnwyd Eden Davis a Martin Theodorou yn gydradd ail. Llongyfarchiadau mawr i Luned am gyflawni'r 'dwbl'.

Braf oedd gweld capteiniaid y tri thŷ sef, Caroline Roberts ac Aled Wyn Thomas (Creuddyn); Jane Davies a Daniel Davies (Dulas); Heledd Thomas a Gethin Jones (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol.

Ar ddiwedd y cystadlu, Creuddyn ddaeth i'r brig gyda 576 o bwyntiau, Teifi yn ail gyda 526 a Dulas yn drydydd gyda 480 o bwyntiau. Creuddyn enillodd y cystadlaethau gwaith cartref hefyd.

Nos Iau, 12fed o Chwefror, cynhaliwyd cyngerdd 'Pigion yr Ŵyl', gyda neuadd lawn yn tystio i wledd amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgetsys, darnau offerynnol, grŵp pop a'r dawnsio disgo – rhywbeth at ddant pawb! Gallwn ymfalchïo yn safon uchel y perfformiadau a bwrlwm afieithus y disgyblion.

Talodd y prifathro, Dylan Wyn deyrnged uchel iawn i'r disgyblion a fu wrthi'n ddyfal ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod. Diolchodd yn ddiffuant i'r staff hefyd, yn arbennig Mrs Gillian Hearne a Mrs Delor James am drefnu a goruchwylio'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion – Elin Jones a Russell Pink am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn ac i Miss Mattie Evans a bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol. Yn wir, diolch i bawb a sicrhaodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir.

Dyma ganlyniadau cystadlaethau'r llwyfan: Grŵp Pop - Creuddyn, Stori a Sain - Teifi, Dawnsio Disgo – Dulas, Sgets – Dulas, Meimio – Creuddyn, U$nawd Offerynnol Iau - Gwawr Hatcher (D), Unawd Offerynnol Hŷn - Tomos Harris(C), Llefaru Cymraeg Iau - Aron Dafydd (T), Llefaru Cymraeg Hŷn - Elliw Dafydd (T), Unawd Merched Iau - Gwawr Hatcher (D), Unawd Merched Hŷn - Elliw Dafydd (T), Unawd Bechgyn Iau - Aron Dafydd (T), Unawd Bechgyn Hŷn - Aled Wyn Thomas (C), Deuawd - Philip Chrich a Nerys Evans (T), Areithio - Elin Jones (D), Parti Merched – Creuddyn, Parti Bechgyn – Creuddyn, Côr - Creuddyn.

Enillodd y canlynol wobrau hefyd: Cwpan y cerddor gorau - Nerys Evans Bl 13 (T), Llefarwraig orau'r dydd - Elliw Dafydd Bl 11 (T), Unigolyn â mwyaf o farciau yn y cystadlaethau gwaith cartref - Ceri Cranfield Bl 8 (C), Cwpanau Adran y Gymraeg: Darn gorau o waith Bl 7 - Gethin Morgan C, Bl 8 - Llion Thomas D, Bl 9 - Marian Thomas T, Bl 10 + 11 Rhys Price T, Bl 12 + 13 Luned Mair T.

Dyma'r gerdd fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair

Ymwelydd

Daeth
un prynhawn
pan oedd gronynnau o haul yn goleuo'r ffenest
a pherlau gwyn lili wen fach ar y lawnt
Gan adael ei fagiau yng nghrombil fy nghorff.

Crafodd corneli'r cesys fy mherfedd
A'u gadael yn goch, amrwd
A chrafu rhychau dwfn
Yn y perffeithrwydd.

Ceisiais ei atal
Cau drws y ffrynt yn glep yn ei wyneb
A'i adael yn ddigroeso ar stepen drws fy mywyd.

Ond methais
A rhwygodd trwy'r drws caëdig
Gan daflu fy hapusrwydd i oerfel y nos
A mynnu aros yn ymwelydd di-wahoddiad.

Mae'r ymwelydd wedi newid
Yn gyfaill mileinig
A'i ewinedd yn gafael
Yn noddfa fy nghorff
Yn dynn
Dynn.

Gorffwysa'r ymwelydd o flaen tân fy mod
A chysga yng nghlydwch fy ngwely.

Aeth
Un bore
Pan oedd gronynnau o haul yn goleuo'r ffenest
A dagrau lili wen fach ar y lawnt
A mi gydag ef.

Luned Mair Bl 13
(Brawd yng nghyfraith Iesu Grist – Teifi)

Newyddion eraill:

Codwyd £750 gan Gymdeithas Rieni'r ysgol mewn Raffl Fawr y tymor diwethaf. Noddwyd y Gymdeithas Rieni gan Fanc Barclays a roddodd punt am bunt, ac felly cyfraniad o £750 at yr ysgol. Cyflwynodd Angela Thomas o Fanc Barclays y siec i Gadeirydd y Gymdeithas Rieni, Mareth Lewis. Diolch i Barclays am eu cyfraniad hael.

Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu'n rhedeg yn Rasys Traws Gwlad Ceredigion: Blwyddyn 7: Haf Burrill (6ed), Sasha Bennett (7fed), Sophie Jones (13eg), Cerys Baker (14eg), Rhys Cadogan (5ed), James Petty (14eg). Blwyddyn 8/9: Rhian Jones (3ydd), Christina Lewis (14eg), Meirion Evans (12fed), Connor Bennett (15fed). Blwyddyn 10/11: Rhian Davies (4ydd), Gwion Edwards (9fed), Heddwyn Jones (10fed) Aaron Beddoe (11eg). Merched Hŷn: Aisha Aroussi (5ed), Sarah Janes (6ed).

Llongyfarchiadau gwresog i Gwion Edwards ar ei lwyddiant gyda chlwb pêl-droed Abertawe. Mae'r clwb wedi cynnig ysgoloriaeth o ddwy flynedd iddo ac y mae wedi ennill lle yn y garfan o dan 18 y tymor nesaf. Dymunwn bob lwc iddo.

Ddydd Sul 7fed o Rhagfyr aeth grŵp dawnsio 5x60 Ysgol Gyfun Llambed i gystadlu yng nghystadleuaeth ranbarthol dawnsio 'Stryd' Cymru a drefnwyd ar y cyd rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru a United Dance. Mae'r grŵp wedi bod yn ymarfer yn wythnosol dan arweiniad Sally Saunders ac maent wedi llwyddo i greu dawns greadigol, gyffrous ac egnïol.

Roedd safon y cystadlu yn uchel iawn gyda thri thîm ar ddeg yn cystadlu am yr wyth lle yn y rownd derfynol. Wedi perfformiad graenus, daeth y newyddion fod y grŵp wedi llwyddo a dod yn ail a hynny'n golygu eu bod wedi cyrraedd y rownd derfynol yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd.

Yn y rownd derfynol ddydd Sul 18fed o Ionawr roedd dros 30 o dimau yn cystadlu am wobr Pencampwyr Dawnsio Stryd Cymru 08/09. Er i'r grŵp berfformio'n raenus a phroffesiynol, ni chafwyd llwyddiant y tro yma, ond cafwyd profiad bythgofiadwy wrth berfformio o flaen neuadd orlawn. Llongyfarchiadau i chwi oll a daliwch ati.

Llanfair Clydogau

Dathlu a chodi arian

Wow! Dyna beth oedd noson i'w chofio. Os oeddech ymhlith y rhai a ddaeth i neuadd y pentref ar nos Sadwrn, Chwefror 14eg i ddathlu dydd Santes Ffolant, rwy'n gobeithio eich bod yn cytuno ein bod wedi cael gwledd.

Daeth bron gant o bobol i'r neuadd lle'r oedd pryd o fwyd pump cwrs arbennig yn ein disgwyl, wedi ei baratoi gan wragedd y pwyllgor. Diolch iddynt i gyd am eu hamser a'u coginio gwych, ac i'r gwragedd a'r dynion a fu'n paratoi'r byrddau ac addurno'r neuadd yn brydferth â balwnau, gyda chalonnau coch ar y byrddau a'r waliau wedi eu haddurno yn goch, du ac arian ar thema Santes Ffolant. Rydym yn ddyledus unwaith eto i Arwyn ac Eleri Pentre am roi benthyg nifer fawr o nwyddau a'r byrddau ar gyfer y noson.

Pleser oedd croesawu y Cynghorydd Odwyn Davies a Mrs Ann i'n plith, gydag Odwyn yn arwain y noson. Cafwyd hwyl fawr yn gwrando ar John Glant a ddaeth i'n diddori gyda'i ganu a'i storïau. Da oedd cael cwmni Elizabeth Glant hefyd.

Pleser o'r fwyaf oedd cael cwmni pedwar o bobol ifanc yr ardal a hwy fu yn ein swyno ni gyda'u canu a gyda cherddoriaeth telyn. Diolch i Lowri, Hedydd, Elliw ac Aron am eu cyfraniad gwych tuag at y noson.

Diolch am y rhoddion raffl a'r arian ac am yr eitemau a roddwyd at yr arwerthiant a wnaeth mor dda - noson lwyddiannus iawn a gododd swm sylweddol tuag at Eisteddfod yr Urdd 2010.

Marwolaeth

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Christine Pritchard o Bow Street a fu farw ddydd Mawrth 10fed o Chwefror yn 43 oed. Roedd Christine yn wraig annwyl i John a mam annwyl i Anne. Cafodd Christine ei magu yn Llanfair, yn ferch i Crystal a'r diweddar Cynon Williams. Mae Crystal yn dal i fyw yn y pentref. Roedd hi'n chwaer i Stephen, Gillian, Jeffery, Michael, Teresa ac Yvonne. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r holl deulu.

Trist oedd clywed am farwolaeth Dolly, Bronhaul, Heol Llanfair, yn 92 oed. Roedd Dolly wedi byw yma ers i'w mab Larry a'i merch yng nghyfraith Sandra symud i'r ardal. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

Llongyfarchiadau

Hoffwn longyfarch Ceri Cranfield, Bronhaul, Heol Llanfair a fu mor llwyddiannus yn Eisteddfod Ysgol Gyfun Llanbed, yn ennill 11 o wobrau i Creuddyn a chipio'r cwpan am y disgybl a enillodd y mwyaf o bwyntiau drwy'r ysgol. Da iawn Ceri. Dal ati.

Cellan

18 oed

Pen blwydd hapus iawn i Rhydian Watkins, 1 Tre Cynon yn 18 oed. Pob hwyl i ti Rhydian yn y dyfodol.

Digwyddiadau yng Nghellan

Cynhelir Twmpath a The Cymreig gan W.I. Cellan ar y 19eg o Fawrth am 7.30 y.h. yn Neuadd y Mileniwm. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Twmpath yn Neuadd y Mileniwm Cellan ar y 3ydd o Ebrill i godi arian at Apêl Eisteddfod yr Urdd am 7.30 y.h. Fe fydd Mr Erwyd Howells yn galw a bydd lluniaeth ysgafn ar gael. Dewch yn llu.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys â theulu Ffosyffin ar golli mam, mam-gu, a hen fam-gu annwyl iawn ym mherson Dinnie Rees.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Bu Mrs Diane Evans o Ysgol Uwchradd Llanbed yn ymweld â phlant blwyddyn chwech i sgwrsio a'u paratoi ar gyfer eu trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd ym mis Medi.

Bu'r plant yn ffodus iawn i gael rhai diwrnodau bant oherwydd yr eira. Ar y prynhawn Gwener cafodd y plant gyfle mewn grwpiau i adeiladu dyn eira.

Alltyblaca

Diolch

Dymuna Dilwen George, Awelfryn, ddiolch am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Daeth y cyfraniadau yn lle anrhegion at 'Ymchwil Epilepsi' yn £900. Diolch o galon am eich dymuniadau da i gyd.

Clwb Clonc

Mawrth 2009
£25 rhif 53:
D.T. Davies,
Vader, Llambed
£20 rhif 265:
Hedydd Jones,
Talar Wen, Cwmsychpant.
£15 rhif 375:
Robert Phillips,
3 Barley Mow, Llambed.
£10 rhif 106:
Edward Davies,
42 Brynsteffan, Llambed.
£10 rhif 300:
Anne Jones,
18 Ty Rhys, Caerfyrddin.
£10 rhif 168:
Mrs Avanna Evans,
Brynbach, Llambed.

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2009

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 5 Mawrth, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un**. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!



AR DRAWS

1. Hunangofiant Nigel Owens (6, 5)
6. Hunangofiant gwleidydd o Geredigion, *Cynog – _ _ _ _ y Pregethwr* (3)
8. Casgliad o gerddi diweddaraf y Prifardd Myrddin ap Dafydd, *_ _ _ _ _ Newydd* (4)
9. Nofel anarferol a grymus gan Owen Martell, *Dynyr _ _ _ _ _ _ _* (6)
11. Stori fywiog a gweriddiol i blant 5–7 oed yn adrodd hanes adnewyddu hen feic modur, *_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ Twm Twrch* (8)
13. Nofel gan Mihangel Morgan am ffoadur o wlad Lacsaria (5)
15. Cyfrol yn cynnwys nifer penodol o gerddi a olygwyd gan Dafydd Islwyn (4, 1, 8)
18. Merch o'r Cwm (5, 8)
22. Bardd *Môr Goleuni/Tir Tywyll* (5)
24. Cyfrol gan Rhiannon Ifans, *Awstralia, Gwlad yr Aur – Teithio i Awstralia drwy Lygad y _ _ _ _ _ _ _ _ _ Cymraeg* (8)
27. (gweler 24. i lawr)
29. *Llestri _ _ _ _ a Gobaith: Cymru a'r Cenhadon yn India*, cyfrol a olygwyd gan D. Ben Rees (4)
31. *Rhag _ _ _ _ Ysbrydion – Chwilio am y Gwir am Straeon Ysbryd* gan J. Towyn Jones (3)
32. Nofel gan Rhiannon Wyn yng Nghyfres yr Onnen, ar gyfer plant 9–13 oed (4, 7)

I LAWR

1. (gweler 21.)
2. Hunangofiant R. S. Thomas yng Nghyfres y Cewri (3)
3. (gweler 5.)
4. Enw cyntaf awdur *Rara Avis*, nofel wedi ei lleoli yn un o bentrefi Cwm Rhondda yn y 1950au (5)
5. a 3. Awdur *Telyn Egryn* yng Nghyfres Clasuron Honno (4, 5)
6. Nofel ramantus gan Selyf Roberts, *Cyffrinach _ _ _ _* (3)
7. Cyfrol o atgofion Jac Davies o Gwm Gwendraeth (3, 1, 3)
10. Cyfenw awdur gwreiddiol *Gwyliau Santa*, addasiad Cymraeg o *Santa's Suitcase* ar gyfer plant 2–4 oed (3)
12. *Dim Angen Creu Teledu _ _ _*, cyfrol o gerddi gan Aled Lewis Evans (3)
13. *Mae Mali Eisiau _ _ _ _*, llyfr ar gyfer plant bach am Mali'r ddafad, gan Joseph Theobald (3)
14. *_ _ _ _ a Thinsel – Blodeugerdd Barddas o Gerddi Nadolig* a olygwyd gan Elwyn Edwards (4)
15. *_ _ _ _ fy Meiau*, dyddiadur a gyhoeddwyd gyntaf ym 1957, yn adrodd profiadau ysbrydol y diweddar Brifathro Pennar Davies (3)
16. Enw cyntaf awdur *Cario'r Ddraig – Stori El Bandito* (4)
17. *Yr _ _ _ yng Nguddiau'r Rhosyn*, nofel gyffrous gan Gwyn Llewelyn (3)
18. Nofel gref am berthynas deuluol gan Emily Huws (7)
19. Un o gyfrolau Hywel Teifi Edwards, *Arwr Glew Erwau'r _ _ _* (3)
20. Mae bachgen o'r fath yn nofel Bob Eynon, *Y Corff Anhysbys* (3)
21. ac 1. Enillydd y Fedal Ryddiaith 2008 (7, 7)
23. *Fel y _ _ _*, nofel ddtectif gan Elgan Philip Davies (3)
24. a 27. ar drawsn *_ _ _ _ _ _ _ _ a Straeon a Cherddi Eraill*, cyfrol gan fardd Plant Cymru 2007–08 (5, 6)
25. Cyhoeddodd y bardd hwn lyfr glas yn ddiweddar (5)
26. *_ _ _ _ gyda Twts*, un mewn cyfres o bedwar llyfr bwrdd dwyieithog i blant bach gan Chris Glynn (4)
28. Enw cyntaf golygydd *Gwaith Gruffudd ap Maredudd III* yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr (3)
30. Nofel rymus wedi'i lleoli ym Mhen Llŷn gan Alun Jones, *Ac Yna Clywodd _ _ _ y Môr* (3)

Cofiwch mai un llythyren yw DD, NG, RH

Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion

gwales.com llyfrau ar-lein

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DIWRNOD Y LLYFR 05.03.2009

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO CLONC

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2009. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

Ffarmers

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Ray Davies, Peronne, a'r teulu oll, yn dilyn marwolaeth ei chwaer Mrs M.E. Davies, Tyncoed, Cellan. Yn yr un modd, cydymdeimlir â Mrs Rhiannon Lewis, Llwynberllan ynghyd â'r teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Mr Gareth Matthews, Bronhaul, Bronwydd.

Diolch

Dymuna Mrs Ray Davies, Peronne a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd a chwaer annwyl yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Estynnwn ein cyfarchion i Dr Rowena Mathew, Troed y bryn ar ennill gradd MA o Goleg y Brifysgol, Abertawe yn dilyn astudiaeth o Foeseg Meddygol.

Neuadd Bro Fana

Nos Sadwrn y 24ain o Ionawr, cynhaliwyd cyngerdd clasurol yn y Neuadd gyda Cherddorfa Siambr Llanbedr Pont Steffan a'r pianydd Angela Brownridge. Perfformiwyd dau ddarn enwog sef yr Emperor Concerto gan Beethoven, a Symffoni Rhif 5 gan Schubert. Roedd y Neuadd yn llawn ar gyfer y perfformiad, a phawb wedi mwynhau noson o gerddoriaeth safonol – a gwydryn o win twym.

Dros y penwythnos, 31ain o Ionawr a'r 1af o Chwefror, cynhaliwyd arddangosfa o hen luniau o blwyfi Cynwyl Gaeo a Llanycrwys yn y Neuadd. Daeth y syniad yn sgil y prosiect a sefydlwyd yn 2008 i wahodd trigolion yr ardal, ynghyd ag eraill â chysylltiad agos a'r fro, i roi benthyg hen luniau ar gyfer eu sganio a chreu Archif Gymunedol. Yn dilyn llwyddiant y prosiect gwreiddiol, roedd yna nifer o bobl yn awyddus i weld rhai o'r lluniau, ac aethpwyd ati i argraffu rhyw 300 o'r 1500 o luniau sydd yn yr archif, a'u harddangos yn y Neuadd. Yn ogystal â'r arddangosfa, roedd yna hefyd gyflwyniad 'PowerPoint' yn arddangos y lluniau na chafodd eu hargraffu. Daeth cyfeillion o bell ac agos i edrych ar y lluniau, a chafwyd amser difyr yn sgwrsio a hel atgofion, gyda nifer wedi ymweld â'r arddangosfa ar y ddau ddiwrnod. Mae'n amlwg fod y prosiect wedi apelio yn fawr gyda nifer am gael arddangosfa arall, ac eraill yn awyddus i weld llyfr yn cael ei gyhoeddi yn olrhain hanes yr ardal gyda lluniau. Noddwyd y digwyddiad gan 'Milltir Sgwâr'.

Mae Cyngor y Neuadd yn ffodus o gefnogaeth parod trigolion yr ardal, a diolchwn yn arbennig i Lowri Davies, Felindolau am gefnogi Cyngerdd Parti Cut Lloi ar y 6ed o Ragfyr trwy drefnu noddi'r cyngerdd gyda chynllun £1 am £1 Banc Barclays, ei chyflogwyr.

Cynhelir Swper Cawl i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Neuadd ar y 7fed o Fawrth gyda Chôr Lleisiau'r Llan o Lanelli yn ymuno â ni i ddarparu adloniant. Mae tocynnau ar gael oddi wrth aelodau Cyngor y Neuadd am £6 yr un, neu ffoniwch yr Ysgrifennydd ar 01558 650507.

Ar y 18fed o Ebrill, byddwn yn croesawu Cwmni Drama Cudyll Coch yn ôl i Ffarmers i berfformio dwy gomedi. Mae'r Cwmni wedi ymweld â ni yn rheolaidd ers blynyddoedd bellach, ac yn llwyddo i ddiddori ar bob achlysur. Eleni, byddwn yn croesawu Mrs Rona Morgan, Cadfan, Derwen Fawr yn Llywydd y noson. Bu Mrs Morgan yn athrawes ac yn brifathrawes Ysgol Ffarmers am 32 o flynyddoedd, ac edrychwn ymlaen i'w gweld hi a'i phriod ar y noson.

Lowri yn cyflwyno siec am £1,500 i swyddogion y Neuadd - £750 yn elw o'r cyngerdd a £750 o Fanc Barclays. Diolch i Lowri a'r Banc am eu cefnogaeth barod.

Cerddorfa Siambr Llanbedr Pont Steffan yn Neuadd ro Fana

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch, - mapiau arolwg ordnans, - deunyddiau postio a phacio, - deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton, - padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan
Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHIWYR. COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Toriad Taclus
Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top
Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

COMPASS OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

Mwnci ffwnci
Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
☎01570 423135
📱 07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflwn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967559683

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Aberdâr yng Nghynwyl Gaeo ac Abergafenni yn Llangeler

Ceir cofnod am le o'r enw Aberdâr ym mhlwyf Cynwyl Gaeo yn 1614 ac mae Afon Dâr yn tarddu ar Fynydd Mallaen ac yn llifo i Afon Cothi ger Cwrtycadno. Digwydd y cofnod cyntaf am Aberdâr yn Sir Forgannwg yn 1203 a ger y dref honno yn Sir Forgannwg mae Afon Dâr ac Afon Cynon yn ymuno. Afon Cynon a geir yn Sir Forgannwg, Ffrwd Cynon a geir yng Nghynwyl Gaeo.

Enw personol yw Cynon yn naturiol. Pwy oedd y person a goffeir? Wyddom ni ddim: mae ef ac unrhyw chwedlau amdano wedi hen ddiflannu yn niwl y canrifoedd. Ond o leiaf gallwn ddweud bod Cynon yn enw personol sydd wedi lledu i fod yn enw ar afon a nant - ac mae hynny'n ffenomen digon cyffredin yn achos enwau afonydd.

Mae'n debygol mai 'dâr' sef 'derwen' sydd wrth wraidd enw'r afon yn Sir Gaerfyrddin ac yn Sir Forgannwg. Yr un elfen, sef 'dâr' sy'n digwydd hefyd yn Darowen yn Sir Drefaldwyn lle mae 'dâr' wedi cyfuno â'r enw personol Owen.

Tybed a yw enwau'r caeau neu natur y llystyfiant yng nghyffiniau'r afon yng Nghynwyl Gaeo yn cadarnhau enw'r afon? Ac mae Nant y Gerddinen a Nant Derwlwyn hefyd yn y plwyf hwnnw, enwau sydd fel petaent yn cadarnhau bod yr esboniad 'dâr' sef 'derwen' yn agos ati.

Mae'r elfen 'dâr' sef derwen yn elfen gyffredin mewn enwau afonydd mewn rhannau eraill o wledydd Prydain: dyma'r elfen mewn enwau fel Dart, Derwent a Darent. Yn 1564 nodir Tyddyn Aberdâr ger Aberteifi ac mae'n ymddangos mai Dâr oedd enw'r nant a elwir bellach yn Nant-y-Ferwig.

Roedd yn werth holi'r cwestiwn am natur y llystyfiant lleol mewn achos fel hyn am fod posibilrwydd arall yn codi hefyd. Mae'r enw 'dâr' yn gallu dynodi 'cadernid' a 'ffyrnigrwydd' fel yn 'cynddaredd'; byddai'r elfen honno'n gweddu, yn ogytal, i ddisgrifio llifeiriant grymus mewn afon neu nant. Mae'n bosibl mai'r elfen 'dâr' yn dynodi 'cadernid' yw'r elfen gyntaf yn yr enw Derllys ger tref Caerfyrddin.

Yn Llangeler ceir nant fechan o'r enw Gafenni sy'n llifo i Afon Teifi ger Henllan ac mae sôn am 'Tyddyn Abergafenni' yn Llangeler yn 1606 a Parciau Abergafenni yno yn 1643. 'Gof' yw'r sail i enw'r ffrwd yn Llangeler ac mae Gofnant (Llanfihangel Ystrad) yn enw tebyg arall ar nant yng Ngheredigion. Ceir Afon Fenni yn Llanboidy ac mae honno'n un o ragnentydd Afon Taf; mae Pentre Fenni ym Mhen-bre. Talfyriad o Gafenni yw Fenni.

Er bod y dystiolaeth am yr enwau Aberdâr ac Abergafenni yng ngorllewin Cymru yn dod o gyfnod lled gynnar, anodd honni'n bendant, ar hyn o bryd, bod yr enwau hyn yn gwbl annibynnol ar yr enw Gafenni sy'n digwydd yn Abergavenny (Y Fenni) yng Ngwent a rhaid dweud yn gyffelyb am Aberdâr yng Nghynwyl Gaeo.

A dydw i ddim yn ymddiheuro dim am gynnig mwy nag un posibilrwydd ar ystyr enw lle. Wedi pwyso a mesur gwahanol bosibiliadau y gallwn ni gasglu tystiolaeth a'r gobaith yw gallu troi carreg ryw ddiwrnod a fydd yn datgelu'r cyfan.

Y tro nesaf byddwn yn dechrau trafod enwau rhai afonydd a nentydd lleol..

O San Steffan gan Mark Williams AS

Mae'r Flwyddyn Newydd wedi dod â mwy o ofid economaidd ar draws y sir. Tranc Woolworth yn Aberteifi ac Aberystwyth yw'r arwydd sicraf ein bod yn mynd i ddyfroedd dyfnion.

Yn ystod Cwestiynau Cymreig yn San Steffan yr wythnos ddiwethaf, rhybuddiais y Llywodraeth fod busnesau yn straffaglu dan bwysedd talu trethu llawn ar eiddo gwag er gwaethaf ei phenderfyniad i godi'r trothwy ar drethi eiddo gwag. Nid yw codio'r trothwy wedi helpu niferoedd sylweddol. Gwn am fusnesau yng Ngheredigion sy'n wynebu biliau gormodol, rhywbeth na allant eu fforddio'n hawdd mewn dirwasgiad. Mae gan Geredigion gymuned fusnes ffyniannus, ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth wneud yr hyn y gall i helpu ein busnesau lleol, llai – nid dim ond y banciau mawrion.

Yn ystod y mis diwethaf, mae pryder wedi'i fynegi yng Ngheredigion gan grwpiau pysgota ac amgylcheddol ynglŷn â chyffredinrwydd cynyddol treillwyr sgolopiau ym Mae Ceredigion a'r effaith y bydd yn ei gael ar fywyd gwyllt morol yn yr ardal. Heriais Ysgrifennydd yr Amgylchedd Hillary Benn yn San Steffan ynglŷn â'r difrod sy'n cael ei wneud, a ph'un ai a fuasai'n sicrhau y buasai'r mesurau a gynhwysir yn y Mesur Môr a Mynediad i'r Arfordir yn ddigon grymus i ddiogelu rhag pryderon amgylcheddol, ac yr wyf yn falch fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cydnabod y pryder. Mae angen mwy o warchodaeth arnom er mwyn sicrhau bod pysgota ym Mae Ceredigion yn gynaliadwy. Nid yw Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru wedi bodloni ymestyn y cyfyngiadau sydd yn eu lle ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid iddyn nhw barhau i fonitro'r sefyllfa. Cymerodd Llywodraeth y DU gamau i atal treillio am sgolopiau yn Lyme Bay ac os yw'r sefyllfa yma'n parhau'n lleol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru edrych o ddifrif ar waharddiad ym Mae Ceredigion yn ogystal.

Yr wyf hefyd wedi arwain dadl yn y Senedd yr wythnos ddiwethaf ynglŷn â chyllido Heddlu Dyfed-Powys at y dyfodol. Mae Papur Gwyrdd y Llywodraeth wedi arwain at ofnau y gallai Cymru golli allan ar £15m o gyllideb plismona. Yma, yn Nyfed-Powys yn unig, mi allem fod ar fin colli £6m. Mewn ardal sydd mor denau ei phoblogaeth lle mae'r pwysedd i gynnal gwasanaethau gwledig yn ddifrifol, gallai unrhyw leihad pellach arwain at doriadau lle mae'n cyfrif – gyda llai o blismyn ar eu rhawd mewn trefi a phentrefi ar draws Ceredigion. Ni allwn adael i hyn ddigwydd heb frwydr.

Croesewais y newid yng nghân y Llywodraeth Lafur ynglŷn ag eithrio costau AS o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Os ydyn ni eisiau cyfundrefn boliticaidd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng gwleidyddwyr a'r cyhoedd , yna mae tryloywder yn hanfodol. Am yr un rheswm, yr wyf yn croesawu'r canlyniadau y daethpwyd iddynt gan ymchwiliad annibynnol yr wythnos ddiwethaf, y dylid lleihau 'rheol 30-mlynedd' ynglŷn â chofnodion cyfrinachol y Llywodraeth, i 15 mlynedd.

Cam gwag arall gan Lafur yw'r penderfyniad i ymestyn Maes Glanio Heathrow trwy ychwanegu'r 3edd redffordd ddrwg-enwog. Yr wyf yn cytuno'n gadarn â barn y Democratiaid Rhyddfrydol y dylid sianelu'r cyllid, nid i ymestyn y maes awyr a fydd yn cael effaith niweidiol ar ollyngiadau tŷ gwydr, ond i mewn i isadeiledd rheilffyrdd sy'n fwy amgylcheddol effeithlon. Yn ôl yng Ngheredigion, mae hi wedi bod yn fis cyn brysured ag erioed! Yr oeddwn wrth fy modd yn mynychu cyngerdd codi arian Betws Ifan ar gyfer apêl Eisteddfod yr Urdd 2010. Yr oeddwn hefyd wrth fy modd yn mynychu CCB Lleng Prydeinig Brenhinol Ceredigion yn Aberaeron a Chlwb Sarn Helen 50+ yn Nhregaron lle, o blith materion eraill a drafodwyd, oedd goblygiadau rhaglen cau Swyddfeydd Post y Llywodraeth ar gymunedau lleol. Yr wyf hefyd wedi cael mis prysur o foreau coffi! Unwaith eto, yr oeddwn yn falch cael bod yn bresennol ym More Coffi Blynyddol y Maer yn Aberystwyth gyda'r Maer, Sue Jones-Davies ac wythnos yn ddiweddarach yr oeddwn yr un mor falch cael mynychu Bore Coffi Aberteifi 2010 ynghyd â'r Maer, Linda Grace ac Arweinydd newydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, er mwyn codi arian ar gyfer eu blwyddyn fawr o ddathliadau y flwyddyn nesaf.

GLYN PHILLIPS
Saer Coed ac Asiedydd

Ffôn: 01570 470176
Symudol: 07775 694243

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

T. Emyr Jones
Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Yn y Gegin gyda Gareth

'Gwledd y Gwanwyn'.

Gyda'r Gaeaf gobeithio wedi diflannu erbyn hyn, a'r eira wedi toddi, edrychwn ymlaen at ffresni'r Gwanwyn a'r holl fwydydd sy'n gysylltiedig â'r tymor yma. Ryseitiau newydd ysgafn sydd gennyf ar eich cyfer y mis hwn, gan ddefnyddio'r gorau o gynnyrch y Gwanwyn.

Hwyl! ***Gareth.***

'Cig oen Cymreig gyda Salsa Mintys' (syniad am swper mis Mawrth).

Cynhwysion.

500 gram o gig oen wedi'i dorri'n ddarnau
2 ewyn o arlleg
2 llond llwy de o cumin
2 llond llwy fwrdd o win finegr
1 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
Pupur a halen.

I'r salsa mintys –

1 ciwcymbr ac 1 tomato wedi'u plicio a'u torri'n giwbiau
3 llond llwy fwrdd o fintys wedi'i dorri'n fân
3 o shibwns wedi'u darnio
¼ llond llwy de o siwgr
1 llond llwy de o win finegr gwyn
1 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd

Dull

1. Rhowch y darnau cig mewn basn mawr.
2. Curwch y garlleg, cumin, finegr a'r olew gyda'i gilydd gan ychwanegu halen a phupur.
3. Arllwyswch dros y cig a rhowch yn yr oergell am ryw 2 awr.

I wneud y Salsa –

1. Cymysgwch y llysiau gyda'i gilydd gan ychwanegu'r siwgr, finegr, olew a'r mintys.
2. Arllwyswch dros y salsa ac ychwanegwch bupur a halen.
3. Twymwch y gril a rhowch y darnau cig arno gan eu coginio am tua 8 – 10 munud gan droi'r cyfan.
4. Gweinwch yn dwym gyda'r salsa.

Bresych gyda garlleg a lemwn.

Cynhwysion

1 bresych wedi'i darnio'n fân
Halen a phupur
2 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
2 ewyn o arlleg, Sudd un lemwn

Dull

1. Rhowch y bresych mewn dŵr hallt berwedig am 2 i 3 munud nes yn dechrau meddalu. Hidlwch y dŵr a'i waredu.
2. Twymwch yr olew. Ffriwch y garlleg yn ysgafn am funud. Ychwanegwch y bresych, a'r halen a phupur yn ôl eich tast. Ychwanegwch y sudd lemwn a gweinwch. Llysieuyn delfrydol gyda'r cig oen.

'Tarten Riwbob a Merang'

Cynhwysion

150 gram, 5 owns o grwst brau (Shortcrust)
300 gram o riwbob wedi'i lanhau a'i ddarnio.
1 llond llwy de o sinamon
6 owns o siwgr mân, ŵy wedi'u gwahanu

Dull

1. Twymwch y ffwrn i wres 190ºC 375ºF Nwy 5
2. Rhowch y riwbob a'r sinamon a 3 llond llwy fwrdd o'r siwgr mewn sosban gaeedig am tua 8 munud nes meddalu. Diffoddwch y gwres ac ychwanegwch y melynwy.
3. Rholiwch y crwst yn ddigon i dun 8 modfedd. Gorchuddiwch â ffoil, taenwch ffa crasu (baking beans) drosto, a choginiwch am 10 munud. Tynnwch y ffoil a'r ffa, a choginiwch am 5 munud arall.
4. Curwch y gwyn ŵy gan ychwanegu'r siwgr yn araf i wneud merang.
5. Rhowch y riwbob yn y casyn crwst, ac arllwyswch y merang dros y cyfan. Rhowch yn y ffwrn am 20 – 25 munud nes yn euraid.
6. Gweinwch yn gynnes.

Yn dilyn llwyddiant diwrnodau agored 2008, trefnir diwrnod arall ar eich cyfer. Os oes diddordeb gennych, dyma'r manylion. Ffoniwch: 422 313

Diwrnod Agored - Paratoi at y Pasg yng Nghegin Gareth.

Dydd Llun 6ed o Ebrill - *Diwrnod ynghanol yr wyau, y plu a'r pwdinau.*

10.30 Cyrraedd am de/coffi a danteithion
11 - 1 Arddangosfa goginio 'Paratoi am y Pasg'
1 - 2 Gwledd o ginio
2 - 3.30 Arddangosfa trefnu blodau, 'Addurno'r cartref at y Pasg'
Yna, te prynhawn i orffen y dathlu.

Lleoliad – Y Goedwig, Ffordd Llanwnnen, Llambed. Pris - £20.

MiS y PaPUr NewYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Chwerthin yn y tywyllwch

Mae'n rhaid cael jôc ... a heddiw yn fwy nag erioed.

Cyn 1989, pan syrthiodd wal Berlin, roedd gan y bobol y tu ôl i'r Llen Haearn eu hiwmor arbennig eu hunain. Am fod pethau mor ddychrynllyd o llwm yno, roedden nhw wedi dysgu chwerthin am y peth.

Hyd yn oed wedyn, yn 1992, dw i'n cofio bod yng ngwlad fechan Lithuania ar lannau Môr y Baltig a chael sgwrs gyda theulu am blant bach a phethau felly. "Mae'r un acw wrth ei bodd efo bananas," meddwn innau. "Bananas?" meddai'r fam. "Wel, ie, wrth gwrs. Dw i'n cofio gweld llun un o'r rheiny."

Bellach, mi fydd rhaid i ninnau ddatblygu hiwmor tebyg. Dyna fydd un o'r ychydig ffyrdd i ddod i delerau gyda'r argyfwng ariannol ... y credit crunch. Mae hiwmor yn ffordd o roi ffrâm amdano a cheisio ei reoli.

Y gwir ydi nad oes ganddon ni syniad eto pa mor ddrwg fydd pethau. Y gwir ydi nad oes gan neb yn y byd unrhyw syniad ... a dyna oedd gwraidd y broblem.

Roedd bosys y banciau a'r cwmnïau arian yn bod yn rhy glyfar wrth chwilio am ffyrdd newydd, gwahanol o wneud proffit cyflym. Roedden nhw fel y dyn yna'n adeiladu tŷ ar y tywod, ond fod hwn yn glamp o balas gyda phob math o drimins a balconis a thyrau.

Roedd yr holl system yn golygu eu bod nhw'n canolbwyntio ar eu pocedi eu hunain yn hytrach na lles pawb. Ac mae'n ymddangos fod pawb wedi colli golwg ar y darlun cyfan.

Dyna sut yr oedd hi'n bosib i un neu ddau o ddynion busnes yn America wneud ffortiwn trwy dwyll – roedd pobol o ddifri'n credu fod modd gwneud arian o ddim ... a phan fydd pobol yn credu pethau felly, maen nhw'n hawdd iawn eu twyllo.

Ac, i raddau, mae hynny'n wir amdanon ni i gyd, a'n gwleidyddion hefyd. Nid ni achosodd y chwalfa, ond roedden ninnau eisio credu fod modd cael cinio am ddim. Nid cinio chwaith, ond anferth o wledd.

Ar hyd yr amser, wrth gwrs, dim ond rhai oedd yn elwa go iawn. Roedd y gwahaniaeth rhwng y tlawd a'r dychrynllyd o gyfoethog yn lledu o hyd. A nawr, wrth gwrs, y rhai ar y gwaelod sy'n diodde'.

Ar un olwg, mae ardal fel Llanbed yn lwcus nad oes ganddon ni siopau mawr a ffatrioedd mwy. Ar adegau fel hyn, mae gwendid economaidd yn gallu ymddangos yn help – fydd yna ddim cyhoeddiadau fan hyn am gannoedd o swyddi'n diflannu.

Ond, yn dawel bach, fe fydd ambell i siop fan hyn ac ambell i gwmni fan draw yn gorfod cau'r drws neu fordio'r ffenest ac fe fydd person ifanc yn methu â chael arian i ddechrau busnes newydd.

Ymhen ychydig, fe fydd pethau'n waeth. Arian cyhoeddus sy'n tynnu'r banciau o'r bwlács a ni fydd yn talu yn y pen draw. Bryd hynny, fe fydd diffyg busnesau preifat yn broblem. Fe fydd gwario cyhoeddus yn cael ei dorri i'r byw ac ardaloedd fel hyn yn diodde' yn waeth nag unman arall.

Yr unig beth y gallwn ni ei wneud ydi trio gwneud yn siŵr na fydd ein gwleidyddion ni byth eto yn cael eu hudo gan y Ddinas yn Llundain, nac yn codi ar eu traed ôl a glafoerio pan fydd rhywun cyfoethog yn pasio.

Ac, wrth gwrs, mi allwn ni gael jôc. A dechrau trwy addasu rhai o'r straeon oedd yn cael eu dweud yng ngwledydd y Llen Haearn. Honno, er enghraifft, am y rasys milgwn.

Sut ydech chi'n gwybod fod gwleidydd yn y dorf mewn rasys milgwn? Mae'n rhoi pwdl yn y ras.

Sut ydech chi'n gwybod fod ymgynghorydd ariannol yn y dorf? Mae'n betio ar y pwdl.

A sut ydech chi'n gwybod fod pennaeth un o'r banciau yno hefyd? Mae'r pwdl yn ennill y ras.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder.

Annwyl Blant,

Sut ydych chi? Mae'n siŵr eich bod chi gyd wedi cael sbort yn gwisgo ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Cefais innau sbort hefyd, ond yn anffodus roedd gormod braidd yn dynn o amgylch fy mola – gormod o gawl, mynte fy nghefnder Joni Jacos.

Braf gweld bod llawer un wedi rhoi cynnig arni y mis hwn eto. Mae clod mawr yn mynd i Kai Davies o Abergwili, Nia Thomas a Sioned Fflur o Lanybydder, Laura Gaskell o Ffosyffin, Miriam Butcher o Gaerdydd, Owain Jones o Gwmsychpant a Lauren McLeary o Lwynygroes.

Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Jac Williams, Brynawel, 66 Stryd y Bont, Llambed. Da iawn a llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio llun y mis nesaf a'i ddanfon ataf erbyn dydd Llun, Mawrth 23ain.



Enillydd y mis!

Jac Williams



Enw:

Cyfeiriad:

Cylchoedd Meithrin Y Dderi a Llanybydder

'STORI I'N SWYNO'

I blant dan 12 oed

CYSTADLEUAETH NEWYDD

Wedi mynd yn rhy hen i liwio llun o dan 8 oed! Peidiwch â phoeni, dyma gyfle arbennig i chi ddangos eich doniau creadigol drwy ysgrifennu stori tua 500 o eiriau. Cystadleuaeth newydd yw hon a bydd y stori orau yn ennill tocyn llyfr gwerth £10, ac yn cael ei hargraffu yn Clonc y mis nesaf.

Teitl ar gyfer y mis yma yw

'Eira, eira a mwy o eira!'

Felly, blant ewch ati i'n swyno â'ch straeon. Cofiwch anfon eich stori at '**Y Dewin Doeth**', Glasfan, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9SY neu golygydd@clonc.co.uk erbyn Dydd Gwener, 20fed o Fawrth.

Cyfle i ennill Tocyn Llyfr gwerth **£10**

Colofn Clybiau Ffermwyr Ieuainc

Clwb Bro'r Dderi yn eu cinio blynyddol yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch.

Clwb Cwmann

Fe fydd Clwb Cwmann yn dathlu ei hanner canmlwyddiant ers ei sefydlu ar y 7fed o Ionawr 1960. Bwriad y clwb yw dathlu drwy gydol y flwyddyn 2009-2010.

Cynhelir digwyddiadau lu a chyffrous i ddenu aelodau presennol a chyn-aelodau yn ystod y flwyddyn. Rydym yn awyddus i gynnal aduniad a chyfle i hel atgofion a mwynhau. Trefnir calendr o ddigwyddiadau gyda manylion pendant i'w cadarnhau. Rydym yn apelio ar ddarllenwyr Clonc i hysbysu cyn-aelodau i gasglu hen luniau, llyfrau lloffion, gwybodaeth, fideos, ffrogiau morwynion, cyn grysau T a siwmperi clwb, neu i rannu atgofion er mwyn eu rhoi ar gof a chadw.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn hwylus yng nghwmni'n gilydd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu os ydych am helpu gyda'r paratoi, peidiwch ag oedi rhag gysylltu â'r Cadeirydd, Sioned Russell ar 01570 423396. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd y 15fed o Fawrth am 7:00yh yn Neuadd Sant Iago, Cwmann. Dewch yn llu!

Diolch yn fawr - *Sioned Russell* (Cadeirydd)

Pencampwyr y Pantomeim

Bu Theatr Felinfach dan ei sang am dros wythnos wrth i'r mudiad gynnal cystadleuaeth pantomeim Ceredigion ganol Chwefror. Gwelwyd 14 Panto ar y llwyfan gan glybiau'r sir a diolchir i'r holl aelodau (dros 400 i gyd) am sicrhau oriau o adloniant i'r gynulleidfa. Plesiwyd y beirniad sef Meilyr Sion yn fawr. Dyma'r canlyniadau:-Actor Gorau 16 neu iau: Rhodri Morris, C.Ff.I. Pontsian, Actores Orau 16 neu iau: Meleri Morgan, C.Ff.I. Llangeitho, Actor Gorau: Rhys Griffiths, C.Ff. I. Penparc

Actores Orau: Sara Downes, C.Ff.I. Llangeitho, Set Orau: C.Ff.I. Trisant, Cynhyrchydd Gorau: Criw C.Ff.I. Pontsian sef Dylan Iorwerth, Heledd Gwyndaf, Gwyneth Ayres, Sally Davies a Nanna Ryder. Sgript Orau: Elen Pencwm, C.Ff.I. Talybont, Perfformiad Technegol Gorau: C.Ff.I. Llanddeiniol, Clwb Buddugol: C.Ff.I. Pontsian gyda'r panto 'Go, Go, Go'; 2il: C.Ff. I. Talybont; 3ydd: C.Ff.I. Llangeitho.

Llongyfarchiadau mawr i'r uchod a dymuniadau gorau i Glwb Pontsian yn Rhuthun ar yr 28ain o Fawrth.

Digwyddiadau:

Mawrth 6 Dawns dewis swyddogion Ceredigion yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Mawrth 11 Hyfforddiant Barnu Stoc Gwartheg Godro. Mawrth 13 Rhowch gynnig arni – noson arbennig i gyn-aelodau yng Ngwesty Llanina, Llanarth. Croeso cynnes i bawb – noson gymdeithasol yng nghwmni hen ffrindiau! Cysylltwch â'r swyddfa am fwy o fanylion (01545) 571 333. Mawrth 29 Cystadleuaeth Effeithlonrwydd a Diogelwch Fferm. Ebrill 4 Diwrnod Maes y Sir yn Nhregaron.

Clwb Llanllwni

Llongyfarchiadau mawr i aelodau Clwb Llanllwni ar ennill y gystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant, Sir Gâr yn ystod y diwrnodau diwethaf yma.

Clwb Llanwenog

Mae mis arall wedi mynd heibio yng nghalendr y C.Ff.I. Ar y 26ain o Ionawr, buom ar daith ddiddorol iawn i orsaf dan, Caerfyrddin. Roedd yn noson addysgiadol tu hwnt ac fe gawsom groeso cynnes iawn. Ar yr 2il o Chwefror, er gwaetha'r tywydd gaeafol, mentrodd llawer ohonom i goginio pancws yn ysgol gynradd Llanybydder.

Ar y 7fed o Chwefror, cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty'r Hanner Ffordd, Nantgaredig. Cafwyd noson hwylus iawn. Ein gwraig wadd eleni oedd Mrs Delor James o Flaenannerch. Hoffwn ddiolch yn fawr iddi am ei geiriau pwrpasol; mae'n amlwg ei bod yn nabod rhai o'n aelodau yn dda iawn! Llongyfarchiadau mawr i Nicola Miles ar ennill cwpan yr aelod mwyaf gweithgar dan 16oed ac i Cerys Jones ar gipio'r cwpan am yr aelod mwyaf gweithgar dan 26 oed. Da iawn chi, ferched!

Cafodd llawer o'n haelodau lwyddiant mawr yn Eisteddfod Ysgol Llambed yn ddiweddar. Rhaid rhoi llongyfarchiadau gwresog i un aelod yn benodol, sef Luned Mair ar ennill y goron a'r gadair. Tipyn o gamp yn wir!

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth y pantomeim. Gwnaethom berfformio 'Ceibo a Ceibo' nos Fercher y 19eg o Chwefror. Cawsom lot o hwyl a sbri ac ar ddiwedd yr holl gystadlu fe ddaethom yn 11eg. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran. Edrychwn ymlaen yn awr at gystadlu yn niwrnod maes y sir ar y 4ydd o Ebrill yn Nhregaron.

Digwyddiadau'r ardal

Rhai o'r criw sy'n trefnu Rali Goffa Dafydd Richards o Glwb Moduro Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch yn cyflwyno siec am £1,550 i Dr Holt, yr Uned Gancr yn Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli.

Swyddogion Eglwys Sant Iago Cwmann yn cyflwyno siec i Nyrsys y Gymuned Meddygfa Taliesin, Llambed, elw'r Cyngerdd a gynhaliwyd dros adeg y Nadolig yn yr Eglwys.

Tîm buddugol Adran Llambed yng nghystadleuaeth Cwis Adrannau'r Sir. Da iawn Rhys, Osian, James, Louie a Gareth.

Wedi ennill 4 i 2 yn erbyn Aberaeron, tîm pêl-droed iau Llanbedr Pont Steffan yn ennill cwpan cystadleuaeth De Ceredigion.

Steve Mclean o Marks and Spencers, Isla Roebuck a Tim Harris o Dawn Meats, Paul Edwards a Nia James o Dunbia yn ymweld â Hendai, Cwmann.

Arddangosfa o hen luniau o blwyfi Cynwyl Gaeo a Llanycrwys yn y Neuadd Bro Fana, Ffarmers.

Rhieni Ysgol Ffynnonbedr sydd wedi cwblhau cwrs dysgu Cymraeg gyda'u hathrawes Llinor Evans.

Disgyblion Ysgol Carreg Hirfaen yn eu heisteddfod flynyddol yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers eleni.